Uned A
Cyfathrebu efo cydweithwyr, cyrchu gwybodaeth, dod o hyd i adnoddau

© Hawlfraint ICT Ltd 2000
Syndicet Ymgynghori a Hyfforddi Cymhwysol

ICTS
corff arwain: Inclusive Technology Ltd

Aelodau'r Syndicet
ACE Centre Advisory Trust
ACE Centre North
CALL Centre, Prifysgol Caeredin
CENMAC
Cwmni Cynnal
Cymdeithas Syndrom Down
Inclusive Technology
Prifysgol Fetropolitaidd Manceinion
Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol y Deillion
The Advisory Unit: Computers in Education

Awduron: Lesley Rahamim, Helen Melhuish, Chris Hopkins
Golygyddion: Trish Hornsey, Simon Melhuish, Lowri Jones

Cyhoeddwyd gan Inclusive Consultancy and Training Ltd
www.inclusive.net
ISBN 1-903618-00-2

Diolchiadau

Llawer o ddiolch i'r holl athrawon hynny sydd wedi rhannu eu syniadau a'u profiadau efo ni. Diolch arbennig i:

Becta

Welsh Translation

Gaynor Perry, Beryl Steeden Jones, John Ffrancon Griffith, Catrin Withers, Megan Jones, Siân Roberts, Aelwen Roberts, Eleri Jones

Terminoleg

Ysgrifennwyd yr Uned hon ar gyfer athrawon ac eraill sy'n gweithio yn holl wledydd y DU. Y mae gwahaniaethau yn neddfwriaeth, terminoleg a strwythur systemau addysg yr Alban, Gogledd Iwerddon, a Chymru a Lloegr a bu ymgais i adlewyrchu'r rhain yn y ddogfen. Mewn rhai Senarios arbennig sy'n portreadu'r defnydd o TGCh gan ddisgyblion unigol, mae cyfeiriadau at gynllun sydd efallai ond yn berthnasol i un wlad - er enghraifft, yr Awr Llythrennedd yng Nghymru a Lloegr - oherwydd fod hyn yn angenrheidiol er mwyn gwneud synnwyr o'r stori.

Am wybodaeth bellach am derminoleg sy'n berthnasol i bob gwlad, gweler yr adran **Cwricwlwm a Therminoleg yn y DU** sydd ar ddiwedd eich ffolder fodrwy. Gallech yn hawdd fod yn cyfathrebu efo cydweithwyr yn gweithio mewn rhan arall o'r DU, a byddai yn ddefnyddiol iawn i gael dealltwriaeth gyffredin o iaith addysg.

Ni ellir atgynhyrchu unrhyw ran o'r cyhoeddiad hwn na'i drosglwyddo yn rhannol nac yn gyflawn trwy unrhyw gyfrwng heb ganiatâd ysgrifenedig y cyhoeddwr.

Cymerwyd pob gofal efo'r cyhoeddiad hwn, ac ni ellir dal yr awdur(on) na'r cyhoeddwr yn gyfrifol am unrhyw gamgymeriadau a allai fod ynddo. Ni dderbynir unrhyw gyfrifoldeb am golled na difrod sy'n dod o ddefnyddio'r cyhoeddiad hwn.

Cydnabyddir pob nod masnachol.

Ni ellir dal yr awdur(on) na'r cyhoeddwr yn gyfrifol am argaeledd na chynnwys unrhyw Safwe a grybwyllir yn y cyhoeddiad hwn.

Cynnwys

Cyflwyniad 5

Deilliannau a ddisgwylir 6

Sgiliau allweddol yr ymdrinir â nhw yn yr Uned yma 6

Senarios 8

1. Offer gweinyddol 9

Cyfathrebu electronig 13

2. Anfon a derbyn e-bost 14

3. Anfon at restr bostio 15

4. Neticet ac anfon atodiadau 17

5. Grwpiau Newyddion a Byrddau Bwletin 18

Y We Fyd-Eang (WWW) 19

6. Pori 19

7. Chwilio a Ffefrynnau 20

8. Trafodaethau ar-lein – Cynadledda ar y We 23

9. Creu safle ar y We 27

10. Cyrchu e-bost i bobl efo anabledd 29

11. Cyrchu'r We i bobl efo anabledd 32

Canfod a defnyddio adnoddau – rhai safleoedd defnyddiol ar y We 35

Gweithgareddau addysgu ymarferol 40

Atodiad 1 – Adnoddau Allweddol 42

Atodiad 2 – Cyflenwyr 43

Atodiad 3 – Iaith y Rhyngrwyd 44

Cyflwyniad

Mae cyfathrebu efo cydweithwyr yn rhan hanfodol o'ch gwaith proffesiynol. Byddwch yn:

- cynllunio gwaith
- cofnodi deilliannau
- cofnodi gwybodaeth am Gynlluniau Addysg Unigol (CAU)
- darganfod sut y mae pobl eraill yn datrys problemau
- dathlu llwyddiant

  i enwi rhyw un neu ddau!

Gall defnyddio'r cyfrifiadur ar gyfer llawer o'r tasgau yma wneud eich bywyd yn haws. Mae newid gwybodaeth a diweddaru yn syml. Gallwch gynhyrchu dogfennau a chynlluniau proffesiynol yr olwg i bobl eraill eu gweld. Gall ambell i feddalwedd hyd yn oed adael i chi wybod pan fo angen gweithredu, e.e. pryd mae angen adolygiad!

Yn ychwanegol, mae cyfathrebu electronig trwy'r Rhyngrwyd wedi gwneud cyfathrebu efo rhwydwaith ehangach o gydweithwyr a phobl broffesiynol yn broses syml iawn. Rhwydwaith eang o gyfrifiaduron wedi eu cyd-gysylltu ar draws y byd yw'r Rhyngrwyd. Mae'r Uned yma ynglyn â defnyddio'r Rhyngrwyd ar gyfer cyfathrebu efo cydweithwyr, cyrchu gwybodaeth â dod o hyd i adnoddau.

Gallwch anfon a derbyn e-bost (post electronig) ac hefyd chwilio'r We (www neu'r 'We')am wybodaeth. Mae'r ddau fodel cyfathrebu yma yn rhyngberthynol, ond yn gyffredinol os ydych eisiau cyfathrebu efo rhywun yn electronig, byddwch yn defnyddio'r e-bost; os ydych eisiau dod o hyd i wybodaeth sydd eisioes ar gael byddwch yn defnyddio'r We.

Mae'r Uned hon mewn dwy brif ran. Mae'r gyntaf yn edrych ar gyfathrebu efo cydweithwyr yn yr ysgol ac o'i chwmpas. Mae'r ail yn edrych ar gyfathrebu ehangach.

Deilliannau a ddisgwylir

Erbyn diwedd yr Uned hon bydd cyfranogwyr…

- yn ymwybodol o'r ffyrdd y gallant ddefnyddio TGCh i wella eu heffeithiolrwydd proffesiynol eu hunain
- yn ymwybodol o ffyrdd y gallant leihau eu beichiau gweinyddol a biwrocrataidd
- yn gallu defnyddio post electroing i gyfathrebu efo'u cydweithwyr
- yn medru ymuno efo a chyfrannu i fforymau holi electronig er mwyn cyrchu a rhannu gwybodaeth
- yn medru dod o hyd i adnoddau ar y We Fyd-Eang er mwyn gwella eu hymarferion addysgol a'u haddysgu
- yn ymwybodol o faterion hygyrchedd i ddisgyblion efo anghenion dysgu dybryd a chymleth pan yn defnyddio'r Rhyngrwyd

Sgiliau allweddol a drafodir yn yr Uned hon

Sgiliau prosesu geiriau

Dod yn gyfarwydd â sut i olygu ar brosesydd geiriau.

Defnyddio patrymluniau ar gyfer creu dogfennau.

Cynhyrchu pro formas (patrymluniau) yn cynnwys fframiau ac/neu ymylon.

Gweler Senario 1

Defnyddio pecyn cynhyrchu CAU un pwrpas

Rhoi gwybodaeth newydd yn y gronfa ddata.

Diwygio sylwadau a meini prawf presennol.

Gweler Senarios 1b ac 1c

Defnyddio meddalwedd cyfathrebu â'r Rhyngrwyd

Dod yn gyfarwydd â swyddogaethau sylfaenol y feddalwedd cyfathrebu a ddefnyddir yn eich ysgol.

Gweler yr holl Senarios

Anfon a derbyn negeseuon e-bost

Defnyddiwch eich meddalwedd e-bost i anfon a derbyn e-bost. Defnyddiwch y meddalwedd i olygu e-bost, ateb e-bost, anfon a derbyn atodiadau e-bost. Anfonwch e-bost ymlaen i dderbynwyr eraill.

Dowch i ddeall sut y mae cadw trefn ar eich e-bost - dileu, rhoi mewn ffolderi etc.

Crewch eich llofnod awtomatig eich hunan ar gyfer eich e-bost.

Dyfeisiwch weithgareddau i wneud yr e-bost yn ystyrlon i'ch disgyblion.

Gweler Senarios 2a, 2b, 2c, 2d, 3a, 3b, 3c, a 4a

Ymunwch â rhestr bostio electronig

Defnyddiwch gyfeiriad e-bost neu URL i ymuno â rhestr bostio. Deallwch y confensiynau sydd ynghlwm â defnyddio, gwylio a chyfrannu i restr bostio.

Gweler Senarios 3b a 3c

Gweithredu camera digidol

Defnyddiwch eich camera digidol i dynnu lluniau. Defnyddiwch y meddalwedd a ddaeth efo'r camera i lwytho y ffotograffau i lawr i'ch cyfrifiadur. Cadwch (neu allforiwch) y ffotograffau fel gwahanol fathau o ffeiliau.

Cadwch (neu allforiwch) y ffeiliau ffotograffau i'r ffolder lle rydych eisiau eu cadw. Mae hi'n bwysig eich bod yn gwybod lle rydych wedi cadw eich ffotograffau ar y cyfrifiadur oherwydd byddwch angen dod o hyd iddynt er mwyn eu hanfon fel atodiadau.

Gweler Senario 4a

Deall archifau

Defnyddiwch archifau rhestr bostio a chwiliwch am y wybodaeth yr ydych ei hangen.

Gweler Senarios 3a, a 3b

Cael mynediad i gyfeiriad Safwe (URL)

Defnyddiwch gyfeiriad ar y We i fynd yn syth i Safwe. Ychwanegwch y cyfeiriad at eich rhestr Ffefrynnau, neu gosodwch Nôd Tudalen wrth y cyfeiriad hwnnw.

Gweler Senarios 3b, 6, 7a, 7b, a 8

Darganfod gwybodaeth o Safwe

Gwe-lywiwch safle gan ddefnyddio hypergysylltiadau i ddod o hyd i'r wybodaeth yr ydych ei hangen. Defnyddiwch y botymau Nôl, Mlaen a Cartref i we-lywio safle.

Defnyddiwch beiriant chwilio o fewn safle i ddod o hyd i wybodaeth yn gyflym.

Defnyddiwch beiriant chwilio i leoli safleoedd eraill ar y We a allai fod o ddiddordeb i'ch ymholiad presennol. Deallwch y prosesau sydd ynghlwm â chwilio.

Gweler Senarios 3b, 6, 7a, a 7b

Cymryd rhan mewn cynhadledd ar y We

Logiwch ymlaen i, a chyfranogwch mewn cynhadledd ar y We.

Gweler Senario 8

Cynllunio a chreu Safwe

Defnyddiwch brosesydd geiriau neu feddalwedd Gwe-dudalen i greu tudalennau ar y We. Defnyddiwch feddalwedd brotocol trosglwyddo ffeil (FTP) i lwytho tudalennau i'ch Safwe.

Gweler Senarios 7b, a 9a

Bod yn ymwybodol o faterion hygyrchedd

Defnyddiwch addasiadau meddalwedd i roi hygyrchedd i ddisgyblion i gyfathrebu electronig. Defnyddiwch ddyfeisiadau mynediad i ganiatâu mynediad i ddisgyblion sydd ag anableddau corfforol, synhwyraidd neu wybyddol.

Gweler Senarios 10 ac 11

Senarios

Er nad yr Uned yma yw'r lle i roi cyfarwyddiadau manwl technegol ar y defnydd o gymwysiadau neu offer penodol, (byddwch angen llawlyfrau ar gyfer y fath wybodaeth), rydym wedi clustnodi nifer o sgiliau allweddol sydd eu hangen i wneud gweithgareddau tebyg i'r rhai a ddisgrifir isod.

Cymrir eich bod yn gyfarwydd â'r systemau gweithredu y mae eich cyfrifiadur yn eu defnyddio ac yn medru ymdopi â thasgau sylfaenol megis cychwyn rhaglenni, prosesu geiriau syml, a chadw ac argraffu gwaith. Bydd y sgiliau allweddol, y math o feddalwedd ac unrhyw wybodaeth berifferol yn cael eu rhestru ar ddiwedd pob sefyllfa. Bydd y rhain yn cael eu cysylltu i'r gweithgareddau a welwch ar ddiwedd yr Uned yma.

Er cyfleustra, rhennir y sefyllfaoedd yn bennaf i ddwy adran (er y bydd,wrth reswm, rhywfaint o orgyffwrdd), yn delio â phost electronig a'r We Fyd-Eang.

Senario 1 - Offer gweinyddol

Rydym yn byw mewn byd biwrocrataidd, yn bendant ym maes addysg. Mae CAU unigol, adolygiadau blynyddol, adroddiadau disgyblion a chofnodion, llythyrau i rieni a phobl broffesiynol eraill ayyb. i gyd yn rhan o fywyd proffesiynol athro.

Pan yn crynhoi'r ymgynghoriad ar y Côd Ymarfer ar anghenion addysgol arbennig nododd y llywodraeth fod 'Traean o'r rhai wnaeth sylw yn cefnogi adolygiad o Gôd Ymarfer AAA gan gynnal ei egwyddorion presennol ond gan leihau biwrocratiaeth a gwaith papur, yn enwedig mewn Cynlluniau Addysg Unigol'. Roedd David Blunkett hefyd yn cydnabod, felly, fod athrawon wedi eu llethu gan waith papur ac fe roddodd addewid i 'leihau biwrocratiaeth'. Beth bynnag fydd deilliant yr adolygiad o'r Côd Ymarfer ac hefyd ymgais Mr. Blunkett i leihau y baich, bydd llawer o'r gwaith papur yn aros ac mae'n rhaid i ni ddarganfod ffyrdd o ymdrin ag o mor effeithiol ag sydd bosib.

Ym mha ffyrdd y gall TGCh helpu?

Mae gan TGCh rôl i chwarae yn llawer o'r gwaith gweinyddol sydd gan athrawon i'w wneud. Gall yr athro elwa yn fawr o'r rhwyddineb o ddefnyddio'u cyfrifiadur i gadw, galw i gof, diwygio a threfnu gwybodaeth.

Prosesu geiriau

Y prosesydd geiriau yw'r offeryn a ddefnyddir yn fwyaf cyffredin gan athrawon. Os oes raid i chi atgynhyrchu dogfen, megis llythyr, lle mai ychydig o newidiadau sydd angen bob tro, gall y llythyr gael ei ysgrifennu gyda marcwyr lle mae angen newid y testun, a'i gadw wedyn fel patrymlun. Pan fydd ei angen, gellir agor y patrymlun, ysgrifennu dros y marcwyr ac yna gellir argraffu'r llythyr a'i gadw, os oes angen, fel ffeil newydd gan adael y patrymlun heb ei newid. Efallai y bydd well gan rai athrawon ysgrifennu llythyrau unigol â llaw ond bydd defnyddio'r cyfrifiadur ar gyfer llythyrau safonol yn sicr yn arbed amser. Pan yn ysgrifennu adroddiadau, CAU ayyb, mae'n bosib cynhyrchu pro forma ar y cyfrifiadur, safoni'r ddogfen a chaniatâu i'r athro ei gwblhau naill ai ar y cyfrifiadur neu â llaw.

Gall cael ffrâm ysgrifennu yn cynnwys rhestr o'r prif benawdau i ganolbwyntio'r meddwl fod yn gymaint o fantais i'r athro/athrawes ag ydyw i'r disgybl. Gall yr un peth fod yn wir am gridiau geiriau a throshaenau. Mae athrawon yn y gorffennol wedi creu banciau sylwadau yn cynnwys y sylwadau a'r disgrifiadau mwyaf cyffredin y maent yn eu defnyddio yn eu hadroddiadau. Gallant wedyn eu rhoi yn eu testun wrth glicio botwm neu bwyso'r bysellfwrdd.



defnyddio grid i ychwanegu cymalau

Mae yna lawer o lwybrau byr eraill y gallwch ddefnyddio efo'r prosesydd geiriau. Os ydych chi wedi cadw cofnodion am y disgyblion ar y cyfrifiadur gallant gael eu copïo ar draws i adroddiadau pan fo angen yn hytrach na chael eu hail-deipio.

Un o gryfderau'r prosesydd geiriau yw ei allu i drin testun - torri / copïo a gludo, trefnu tablau ayyb. Yn ychwanegol, gall y defnydd o lwybrau byr y bysellfwrdd neu botwm y lygoden,yn dibynnu ar pa ffordd rydych chi'n gweithio, wneud defnyddio meddalwedd yn llawer haws.

Taenlenni a chronfeydd data

Byddech yn defnyddio taenlen petaech eisiau rhestrau a thablau o ddata, yn enwedig os oeddech eisiau dadansoddi a thrin y data. Mae taenlen hefyd yn caniatâu i chi drefnu eich data yn ôl enw, dyddiad geni ayyb. Efallai fod gan eich prosesydd geiriau gyfleuster tablau fydd yn gadael i chi roi trefn debyg, gan o bosib leihau'r angen am daenlen.

Gellid cynhyrchu CAU ac adroddiadau ysgol gan ddefnyddio meddalwedd un pwrpas sydd yn cynnwys banciau sylwadau y gellwch ddewis ohonynt i weddu eich disgyblion.

Lle mae ysgolion yn defnyddio SIMS fel eu pecyn gweinyddol gallant ddefnyddio y modiwl SENCO ar gyfer tasgau gweinyddol sy'n ymwneud ag anghenion arbennig. Cynlluniwyd hwn i gynorthwyo ysgolion i ddilyn y Cod Ymarfer. Gellid defnyddio y modiwl i gadw gwybodaeth AAA ar unrhyw ddisgybl gan greu cofrestr AAA sydd bob amser yn gyfredol. Gall holl fanylion adolygiadau cyfnodol gael eu cofnodi ynghyd â dyddiad yr adolygiad nesaf. Un fantais sydd gan SIMS yw fod gwybodaeth am ddisgyblion eisioes ar y system; anfantais yw eich bod angen mynediad i'r system weinyddol, sydd ddim bob amser yn bosibl. Mae SIMS yn gadael i chi allforio gwybodaeth; felly petaech angen gwybodaeth am ddisgyblion gallech ei dynnu allan a'i ddefnyddio mewn taenlen neu gronfa ddata.

Mae cronfeydd data di-gynnwys yn cael eu defnyddio yn llai aml mewn ysgolion ond maent yn caniatâu i chi chwilio a threfnu y wybodaeth i wahanol bwrpasau. Gallai cronfa ddata o adnoddau meddalwedd a chaledwedd yr ysgol, un sydd wedi ei chynllunio yn dda, gynorthwyo athrawon i leoli offer a gwneud penderfyniadau ar y meddalwedd priodol ar gyfer disgybl arbennig.

Enghraifft 1a – Defnyddio prosesydd geiriau yn fwy effeithiol

Penderfynodd athrawes greu patrymluniau llythyr a threulio peth amser yn ei chyfarwyddo ei hunan efo meddalwedd prosesydd geiriau fel ei bod yn medru ysgrifennu ei llythyrau, adroddiadau a chynlluniau gwersi yn fwy effeithiol. Drafftiodd ei llythyr, gan osod sêr lle y dylai'r dyddiad a'r enwau fod, newid y ffont a maint y testun a gwneud yn siwr ei fod wedi ei osod allan fel y dymunai hi. Yna fe'i cadwodd fel patrymlun.

Wedyn dechreuodd archwilio y pecyn prosesydd geiriau, gan ddarganfod beth fyddai'n digwydd petai'n defnyddio botwm de y llygoden i geisio gwneud pethau yn lle'r botwm chwith neu petai'n clicio botwm y llygoden mwy nag unwaith. Cafodd syndod a phleser o ddarganfod fod ei fersiwn hi o Word yn rhoi dewis o sillafiadau iddi pan fyddai'n clicio botwm dde y llygoden dros air oedd wedi ei gamsillafu. Roedd ei sillafu yn dda ar y cyfan ond byddai yn gwneud rhai camgymeriadau teipio a darganfu fod hyn yn ffordd gyflym iawn o'u cywiro.

Hefyd gwelodd pan oedd yn rhoi clic dwbl ar air ei bod yn dewis y gair ac nad oedd rhaid iddi ddileu y testun dewisedig, gan mai dim ond teipio roedd rhaid iddi wneud a byddai ei thestun dewisedig yn cael ei ddileu a'r hyn roedd hi yn ei deipio yn cymryd ei le.

Defnyddiodd y mynegai yn adnodd cynorthwyo'r rhaglen i edrych am y gair 'llygoden' a 'bysellfwrdd', i weld oedd yna unrhyw nodweddion a allai fod yn ddefnyddiol; cafodd synod o ddarfganfod faint o lwybrau byr oedd yna ar y bysellfwrdd. Doedd dim gobaith iddi gofio, heb son am ddefnyddio, y cwbl ohonynt ond byddai rhai yn hynod ddefnyddiol. Gwnaeth nodyn o'r holl nodweddion roedd hi wedi eu darganfod a oedd yn meddwl y byddai'n ddefnyddiol iddi a rhannodd y wybodaeth efo'i chydweithwyr.

Sgiliau ac offer allweddol

Y sgiliau allweddol ar gyfer yr enghraifft uchod yw:

- sgiliau prosesu geiriau
- safio'r patrymlun
- defnyddio ffeil gymorth

Yr offer allweddol yw:

- cyfrifiadur yn cynnwys prosesydd geiriau

Enghraifft 1b – *Creu a chofnodi Cynlluniau Addysg Unigol (CAU)*

Penderfynodd athrawon mewn ysgol arbennig adolygu y ffordd yr oeddent yn cofnodi CAU. Teimlent fod eithaf dipyn o'r hyn yr oeddent yn ysgrifennu at eu ffurflenni CAU yn debyg ar gyfer nifer o ddisgyblion ac roeddent yn meddwl tybed oedd yna ffordd o leihau yr amser y cymerai i'w cwblhau.

Buont yn trafod y broblem a daethant i benderfyniad eu bod eisiau gallu:

- dethol targedau o fanc o opsiynau
- diwygio targedau yn hawdd
- ychwanegu eu targedau eu hunain a'u cadw ar gyfer eu defnyddio yn y dyfodol

Soniodd rhywun am glywed am feddalwedd ysgrifennu adroddiadau oedd â banciau sylwadau lle gallech ddethol eich sylwadau, a bod hynny'n swnio addas iawn.

Aeth aelod o'r staff i edrych yn archifau rhestr bostio senco-forum (gweler **Sefyllfa 3 – Anfon at restr bostio**) i weld os oedd yna drafodaeth wedi bod ar feddalwedd o'r fath.

Darganfyddodd fod sôn am ddwy drafodaeth – ***IEP Writer*** lle roedd y ffocws ar y cynradd, ac ***IEP Developer*** oedd â ffocws uwchradd. Mae ***IEP Developer*** wedi ei gynllunio i redeg ar rwydwaith, gan ganiatâu i'r holl staff sy'n dysgu'r disgybl i gyfrannu at y CAU.

Anfonodd yr athro am gopi gwerthuso o'r ***IEP Writer***. (Doedd gan yr ysgol ddim rhwydwaith ac roedd y disgyblion yn cael eu dysgu'n bennaf gan un athro, felly penderfynodd nad oedd ***IEP Developer*** yn addas iddynt.)



Cynllun Addysg Unigol o'r IEP Writer

Roedd y staff, tra'n meddwl nad oedd rhai o'r targedau yn addas ar gyfer eu poblogaeth ysgol, yn hoffi rhwyddineb y diwygio targedau a gynigid. Hefyd roeddent yn ei gweld hi'n hawdd i ychwanegu at y banciau targedau. Hoffent y ffaith fod meini prawf cyrhaeddiad, adnoddau a strategaethau dosbarth hefyd wedi eu cynnwys. Teimlent y byddai'r dull yma yn gwneud cynhyrchu CAU yn haws a byddai'n helpu i'w safoni draws-ysgol.

Sgiliau ac offer allweddol

Y sgiliau allweddol ar gyfer yr enghraifft uchod yw:

- logio ymlaen
- teipio ar URL
- defnyddio hyperlgysylltiadau
- dod o hyd i ddeunyddiau archif
- diwygio ac ychwanegu testun o fewn cymhwysydd

Yr offer allweddol yw:

- cyfrifiadur wedi ei gysylltu â'r Rhyngrwyd
- meddalwedd pori
- copi prawf o ***IEP Writer***

Enghraifft 1c – ysgrifennu CAU

Mewn ystafell staff ysgol arall, roedd yr athrawon yn trafod yr un pwnc. Yma roedd y staff yn llawer mwy cymysg eu barn. Roeddent wedi cyfarfod i drafod fformat eu CAU a ph'un ai oedd yna ffordd mwy effeithiol o'i gwblhau.

Dywedodd rhai aelodau mai beth bynnag fyddai'r penderfyniad ynglŷn â'r fformat, roeddent yn hapus yn ysgrifennu eu CAU a doedden nhw ddim eisiau newid eu dull o weithio. Yn aml byddent yn ysgrifennu cyfran fawr ohonynt yn ystod eu cyfarfodydd adolygu a theimlent y byddai cyfrifiadur yn ymyriad yn y sefyllfa honno. Cyfaddefodd rhai y byddai eu diffyg sgiliau teipio yn arafu'r broses yn ormodol. Roedd eraill yn gweld pethau'n wahanol. Teimlent hwy y byddai'n well ganddynt ddefnyddio prosesydd geiriau ond hoffent gael fframwaith y byddent yn gweithio ynddi. Roedd ambell un eisiau proses mwy awtomataidd fyddai'n eu galluogi i ychwanegu cymalau a brawddegau wrth bwyso botwm.

Penderfynodd y staff greu pro forma ar y prosesydd geiriau, a ellid ei argraffu ar bapur neu ei gwblhau ar y sgrîn. Cafodd rhywun y syniad y gellid defnyddio gridiau ar-sgrîn i greu banc o sylwadau a brawddegau a ddefnyddid yn aml i gyflymu cynhyrchiad CAU gan fod y gridiau hyn yn cael eu defnyddio'n llwyddiannus eisioes yn yr ysgol i wella cyflymder ysgrifennu disgyblion.

Wedi dod i'r penderfyniad, dechreuon nhw ystyried gosodiad a threfn y ffurflen gyfredol gan ei chymharu ag eraill roedden nhw wedi eu gweld. Roedd eu hawdurdod lleol wedi cynhyrchu rhai enghreifftiau ac fe aethon nhw i'r safle
www.dfee.gov.uk/sen/sencoinf.htm
DfEE AAA ar y We a llwytho i lawr ddau CAU enghreifftiol oddi yno.

tudalen Safwe y DfEE

Dyma nhw'n cymharu'r modelau oedd ganddynt, penderfynu ar fformat, a chynllunio eu pro forma eu hunain gan ddefnyddio y blychau testun a'r fframiau testun. Safion nhw eu tudalen fel patrymlun; byddai CAU newydd yn cael ei agor fel dogfen newydd fel, pan fyddai'n cael ei gadw, fyddai yna ddim perygl i neb ysgrifennu dros y patrymlun.

Sgiliau ac offer allweddol

Y sgiliau allweddol ar gyfer yr enghraifft uchod yw:

- llwytho ffeil i lawr o'r We
- creu tablau a blychau testun o fewn proseseydd geiriau
- safio dogfen fel patrymlun
- creu grid ar-sgrîn
- defnyddio grid ar-sgrîn

Yr offer allweddol yw:

- cyfrifiadur wedi ei gysylltu â'r Rhyngrwyd
- meddalwedd pori

enghraifft o batrymlun IEP

Cyfathrebu electronig

Bwriad yr adran hon yw rhoi llawer o syniadau i chi ynglŷn â sut i ddefnyddio cyfathrebu electronig i wella eich datblygiad proffesiynol a'ch dysgu. Bydd rhai sefyllfaoedd yn yr adran yma yn archwilio materion datblygiad proffesiynol, tra fod eraill yn canolbwyntio ar ddisgyblion yn defnyddio cyfathrebu electronig.

Cyfathrebu trwy bost electronig

Mae'r Rhyngrwyd yn cynnig dull cyflym a rhad o gyfathrebu trwy bost electronig (e-bost). E-bost fydd un o'r gwasanaethau a gyflenwir i chi gan eich Cyflenwr Gwasanaethau'r Rhyngrwyd (ISP) fydd yn rhoi i chi eich cyfeiriad e-bost a'r feddalwedd cyfathrebu fyddwch chi angen i anfon a derbyn negeseuon. Bydd y cyfrifiadur mawr (y gweinydd)yn eich ISP yn aros wedi ei gysylltu drwy'r amser fel bod negeseuon wedi eu hysgrifennu atoch chi yn cael eu cadw yno nes eich bod chi yn logio ymlaen (cysylltu) i'r Rhyngrwyd i'w casglu. Pan fyddwch chi yn postio neges i gyfaill bydd yn mynd gyntaf i'ch ISP, fydd wedyn yn ei anfon ymlaen i ISP eich cyfaill lle fydd y neges yn aros nes fod eich cyfaill yn logio ymlaen i'w gasglu.

Gellir cyfansoddi negeseuon all-lein (heb gysylltu â'r Rhyngrwyd) a'u hanfon pan fyddwch chi'n barod. Amser byr mae'n gymryd i anfon a derbyn negeseuon byr, felly yn aml nid oes angen treulio llawer o amser ar-lein. Mae galwadau fel arfer un costio'r un fath â chyfraddau ffonio lleol hyd yn oed os yw'r neges i gyrraedd pen draw y byd, felly gall e-bost fod yn ddull darbodus iawn o gyfathrebu. Oherwydd fod modd anfon negeseuon ar unrhyw amser a'u casglu yn ôl cyfleuster y derbyniwr, mae'n arbennig o ddefnyddiol ar gyfer cyfathrebu ar draws gwahanol ranbarthau amser.

Mae cyfeiriadau e-bost yn dechrau efo nod-enw , yna daw'r arwydd @ wedi ei ddilyn gan enw'r Cyflenwr Gwasanaethau'r Rhyngrwyd e.e. breakfastnews@bbc.co.uk neu helpline@freeserve.co.uk.

Rhaid i gyfeiriadau e-bost gael eu hysgrifennu yn drachywir, heb ofodau. Fydd y gwasanaeth post electronig ddim yn medru dyfalu, felly os ydych chi'n teipio cyfeiriad anghywir caiff y neges ei gyrru yn ôl i chi. Fodd bynnag, i arbed amser a chamgymeriadau, gellir ychwanegu cyfeiriadau y byddwch yn eu defnyddio'n aml i'r ***Llyfr Cyfeiriadau*** ar eich meddalwedd e-bost. Yna gallwch eu dewis efo un clic yn hytrach na gorfod eu teipio bob tro. Mae i ambell feddalwedd cyfathrebu gyfleuster rhagweld fel nad oes angen i chi hyd yn oed agor eich llyfr cyfeiriadau. Cyn gynted ag yr ydych wedi dechrau teipio y cyfeiriad mae'n chiwlio am gyfeiriadau yr ydych wedi eu defnyddio yn y gorffennol sydd yn dechrau efo'r un llythrennau. Y cwbl sydd raid i chi wneud yw clicio ar yr un cywir.

Pan fyddwch yn logio ymlaen i gasglu eich post o'ch ISP, bydd negeseuon newydd yn ymddangos yn eich ***Inbox***. Dylai'r negeseuon ddechrau â llinell yn nodi'r pwnc fel fod gennych syniad am ei gynnwys heb ei agor. Os nad oes gennych ddiddordeb ynddo (mi allech weld eich bod yn derbyn llythyrau sothach neu 'spam') gallwch ei ddileu heb ei agor. Os ydych yn amau bod rhywun wedi gyrru e-bost ichi yn cynnwys feirws cyfrifiadurol, peidiwch a'i agor heb yn gyntaf gael cyngor gan rhywun. Os ydych yn penderfynu agor neges gallwch anfon ateb iddo, ei gadw ar gyfer cyfeirio ato yn y dyfodol, ei anfon ymlaen i rywun arall neu ei ddileu.



ysgrifennu neges e-bost yn Outlook Express

negeseuon yn yr Outbox yn barod i'w gyrru

Pan fyddwch yn anfon neges bydd yn aros yn eich ***Outbox*** nes i chi benderfynu logio ymlaen i'ch ISP a'i anfon. Dull darbodus o ddefnyddio eich post electronig yw i gyfansoddi nifer o negeseuon all-lein ac yna eu hanfon i gyd ar unwaith. Mae post electronig hefyd yn arbed amser i chi oherwydd gallwch gopïo neges ar gyfer unrhyw nifer o gyfeiriadau a'u hanfon gydag un clic. Gallwch hyd yn oed roi at ei gilydd rhestr grŵp o gyfeiriadau fel fod y neges yn cael ei gyrru i bawb ar y rhestr wrth glicio ar enw dim ond un o'r grŵp, gan wneud cyfathrebu rhwng nifer fawr o bobl yn hawdd a rhad.

Senario 2 – Anfon a derbyn e-bost

Roedd un ysgol wedi ei chysylltu â'r Rhyngrwyd yn ddiweddar a rhoddwyd cyfeiriad e-bost i bob aelod o staff. Roedd un athrawes yn arbennig o bryderus am ddefnyddio'r dechnoleg felly awgrymodd y Cyd-gysylltydd TGCh ei bod yn cychwyn trwy anfon neges iddi hi ei hunan. Un bore cyn i'r ysgol ddechrau agorodd y meddalwedd cyfathrebu ar y cyfrifiadur a chlicio ar yr eicon ar gyfer cyfansoddi ***Neges Newydd***. Daeth taflen neges wag i'r golwg felly teipiodd ei chyfeiriad e-bost i mewn i'r ***Llinell Cyfeiriad***, gan fod yn ofalus i'w gopïo yn union. Wedyn roedd angen rhoi rhywbeth yn y ***Llinell Pwnc*** felly teipiodd 'fy neges e-bost gyntaf'. Yna y rhan o'r daflen lle roedd angen neges ysgrifennodd 'Llongyfarchiadau!' Pan roedd hi wedi gorffen cliciodd ar y botwm ***Anfon***, logio ymlaen i'r Rhyngrwyd a dethol yr eicon a anfonodd y post i'r gweinydd. Y noson honno ar ôl ysgol logiodd ymlaen eto, agor y meddalwedd cyfathrebu a chlicio ar y botwm Derbyn Post. Roedd wrth ei bodd i weld ei neges yn ymddangos yn yr Inbox. Agorodd y post ac yno roedd ei neges - 'Llongyfarchiadau!'

Gyda neges hirach, byddai mwy na thebyg yn defnyddio y gwiriwr sillafu o fewn y meddalwedd e-bost i wirio ei neges cyn ei anfon.

Sgiliau ac offer allweddol

Y sgiliau allweddol ar gyfer yr enghraifft uchod yw:

- logio ymlaen i'r Rhyngrwyd
- agor meddalwedd e-bost
- anfon neges e-bost
- derbyn neges e-bost

Yr offer allweddol yw:

- cyfrifiadur sydd wedi ei gysylltu i'r Rhyngrwyd
- meddalwedd e-bost



fy neges e-bost gyntaf

Senario 3 - Anfon at restr bostio

Cyflwyniad

Mae'r rhwyddineb o anfon negeseuon e-bost i grwpiau o gyfeiriadau wedi arwain at sefydlu fforymau e-bost, neu restrau postio, gan grwpiau diddordebau arbennig. Mae rhestrau postio yn annog cydweithrediad rhwng cydweithwyr sydd yn barod i rannu adnoddau ac arbenigedd ar lefel lleol, cenedlaethol a rhyngwladol. Mae'r aelodaeth am ddim, ac mae eu maint a'u lefel gweithgareddau yn amrwyio llawer. Pan fyddwch yn ymuno â grŵp byddwch yn anfon un neges i'r fforwm a bydd hwn yn cael ei anfon yn awtomatig i'r holl aelodau eraill. Mae rhai fforymau yn cael eu safoni, sy'n golygu fod yna berson neu grŵp o bobl, sydd yn cymryd cyfrifoldeb dros sicrhau fod negeseuon yn cydymffurfio efo côd ymddygiad y fforwm, peth a elwir yn neticet. Gall y safonwyr wahardd aelodau nad ydynt yn cydymffurfio i gôd ymddygiad y rhestr.

Enghraifft 3a

Penderfynodd athrawes mewn ysgol arbennig i ddisgyblion ag anableddau dysgu difrifol y gallai ymuno â rhestr bostio ei chefnogi yn ei hymarfer proffesiynol. Gan ddefnyddio ei meddalwedd pori ar y We logiodd ymlaen i safwe Becta i edrych ar y disgrifiadau o'r fforymau a arlwywyd ganddynt: www.becta.org.uk/inclusion/discussion/

Y fforwm SLD oedd i weld fwyaf addas ar gyfer ei anghenion felly cliciodd ar y cyswllt i'w archifau i weld y math o negeseuon gafwyd yn y gorffennol. Roedd y negeseuon yn ddefnyddiol iawn felly dilynodd y cyfarwyddiadau ar y sgrin ar gyfer ymuno â'r fforwm.

ymuno â rhestr bostio neu fforwm

Sgiliau ac offer allweddol

Y sgiliau allweddol ar gyfer yr enghraifft uchod yw:

- logio ymlaen i'r Rhyngrwyd
- mynd i Safwe URL
- defnyddio hypergysylltiadau
- ymuno â rhestr bostio electronig
- darganfod gwybodaeth o Safwe
- darganfod gwybodaeth o archifau

Yr offer allweddol yw:

- cyfrifiadur sydd wedi ei gysylltu â'r Rhyngrwyd
- meddalwedd e-bost a phori

mailing lists hosted by Becta

Mae ***Becta*** yn arlwywyr nifer o fforymau e-bost sy'n cael eu safoni:

Mae ***fforwm SENCO*** ar gyfer trafod materion sy'n ymwneud â gwaith y Cyd-gysylltwyr Anghenion Addysgol Arbennig

Mae ***fforwm SENIT*** â diddordeb arbennig mewn darganfod atebion TG i gefnogi disgyblion efo Anghenion Addysgol Arbennig.

Mae ***fforwm SLD*** ar gyfer pobl broffesiynol sydd yn ymwneud â dysgwyr sydd ag anhawsterau dysgu dwys a lluosog.

Mae'r wybodaeth am y rhestrau postio sydd ar hyn o bryd yn cael eu harlwyo gan Becta i'w canfod ar y We-dudalen www.becta.org.uk/inclusion/sen/discussion/

Mae llawer mwy yn cael eu harlwyo gan Mailbase www.mailbase.ac.uk

Mae Becta hefyd yn cadw archifau o'r trafodaethau ar y fforymau hyn. Er enghraifft gellir canfod yr archif o fforwm SENCO o brif dudalen fforwm SENCO: www.becta.org.uk/inclusion/discussion/senfor.html Cliciwch ar y cyswllt ***Virtual Teacher Centre***.

Enghraifft 3b

Roedd cyd-gysylltydd TGCh mewn ysgol arbennig i ddysgwyr efo anableddau corfforol eisiau cefnogaeth i ddod o hyd i atebion i anghenion cyrchu yr ysgol. Rhoddodd cydweithiwr o ysgol arall daflen iddo am fforwm electronig SENIT, felly fe ymunodd ag o.

Y neges gyntaf a dderbyniodd o'r fforwm oedd y ffeil Croeso ragarweiniol oedd yn rhoi cyngor ar gymryd rhan mewn trafodaethau ac yn amlinellu neticet y grŵp. Wedi hynny derbyniodd gopïau o'r holl negeseuon a anfonwyd i'r fforwm.

Ar y dechrau byddai'n darllen pob neges, gan ddilyn llinynnau o ddiddordeb iddo ond heb gyfrannu ei hunan. Roedd hyn yn gwastraffu amser braidd felly dechreuodd ddileu negeseuon heb eu hagor os nad oedd y linell pwnc yn dangos rhywbeth o ddiddordeb iddo.

Pan oedd yn teimlo y gallai ychwanegu rhywbeth defnyddiol i'r drafodaeth roedd yn clicio ar yr eicon Reply a phostio ei gyfraniad at weddill y rhestr.

Gofynna'r rhestr i'r aelodau ychwanegu Llofnod i'w negeseuon gan roi syniad o'u rôl, felly defnyddiodd ei feddalwedd cyfathrebu i greu llofnod awtomatig gyda'i enw, teitl ei swydd ac enw'r ysgol. Hefyd ychwanegodd frawddeg i'r llofnod yn nodi fod y farn fyddai o'n fynegi yn un bersonol ac na fyddai o reidrwydd yn adlewyrchu barn ei gyflogwr.

Weithiau byddai'n agor trafodaeth trwy anfon cwestiwn. Tyfodd y nifer o negeseuon yn ei Inbox yn ormod i ymdrin â nhw felly creodd ffolder newydd a symud yr holl negeseuon SENIT i hwnnw.



creu ffolder ar gyfer negeseuon

Wedyn ffurfweddodd ei feddalwedd e-bost fel bod negeseuon SENIT yn mynd yn syth i'r ffolder newydd yn hytrach nag i'r Inbox.

Gallech archwilio eich meddalwedd e-bost eich hunan er mwyn canfod yr opsiynau hyn.

Sgiliau ac offer allweddol

Y sgiliau allweddol ar gyfer yr enghraifft uchod yw:

- ymuno â fforwm electronig
- cymryd rhan mewn trafodaethau e-bost
- sefydlu a ffurfweddu blychau post
- ychwanegu llofnod i negeseuon e-bost
- dileu negeseuon e-bost

Yr offer allweddol yw:

- cyfrifiadur wedi ei gysylltu â'r Rhyngrwyd
- meddalwedd e-bost

gosod rheolau ar gyfer negeseuon

Senario 4 - Neticet ac anfon atodiadau

Mae e-bost yn ffurf esblygol o gyfathrebu. Oherwydd, o bosib, fod cyfnewid negeseuon ac atebion e-bost yn beth mor gyflym, mae'r arddull yn gyffredinol yn llawer byrrach na chyfathrebu mwy ffurfiol llythyr ysgrifenedig, ac yn aml bydd yn dirywio i ffurf delegraffig.

Mae yna rai confensiynau a fabwysiadwyd gan ddefnyddwyr e-bost, grwpiau newyddion a rhestrau postio, yn arbennig. Adnabyddir rhain fel Neticet (***Netiquette***). Bydd ymddygiad disgwyliedig yn amrywio rhwng grwpiau; felly ceisiwch sylwi ar unrhyw reolau arbennig, lleol.

Confensiwn cyffredin yw peidio ysgrifennu brawddegau yn defnyddio prif lythrennau gan fod hyn yn cael ei ystyried yn weiddi. Weithiau mae pobl yn defnyddio 'emoticons' neu 'smilies' fel :) neu ;) ayyb., er mwyn awgrymu hiwmor, tristwch ac ati. Confensiwn arall yw peidio dyfynnu llawer iawn o gyfraniadau blaenorol i restr yn eich neges ddilynol. Os yw eich pwyntiau newydd chi wedi eu claddu mewn pethwmbreth o destun dyfynedig bydd yn llawer iawn anos ei ddilyn; felly dilewch pob dyfyniad heblaw am beth sy'n angenrheidiol.

I anfon ffeiliau nad ydynt yn destun, megis lluniau, dogfennau Word, ayyb, bydd rhaid i chi eu dethol o'ch rhaglen e-bost fel atodiad (***Attachments***). Mae hyn yn golygu eu bod yn cael eu hychwanegu i'r e-bost mewn ffurf arbennig ar gyfer eu hanfon yn ddiogel. Gall rhai mathau o ffeiliau (ond nid ffeiliau delwedd JPEG, er enghraifft) elwa o gael eu **cywasgu**. Mae'r broses hon yn cael gwared o wybodaeth ddianghenraid o'r ffeil, gan arbed ar amser trosglwyddo. Rhaid cildroi y broses wedi derbyn y ffeil, er mwyn adfer y data gwreiddiol. Rhaid wrth feddalwedd cywasgu megis ***WinZip*** neu ***StuffIt*** i wneud hyn.

Fe all atodiadau fod yn fawr, ac felly yn anodd i ddefnyddiwr fforwm sydd â chysylltiad arafach. Os ydych yn bwriadu anfon ffeil fawr, hyd yn oed yn uniongyrchol i unigolyn, mae'n foesgar gofyn gyntaf os yw'n gyfleus.

Enghraifft 4

Sefydlodd athro gyswllt e-bost gydag ysgol debyg yng Nghanada. Roedd y disgyblion yn ysgrifennu at eu cyfeillion ysgrifennu o Canada ynglŷn ag ymweliad y buont arni i Gromen y Mileniwm. Roeddent wedi cymryd ffotograffau yno gyda chamera digidol a gofynodd un o'r disgyblion a allai anfon ffotograff efo'i neges.



ychwanegu atodiad i e-bost

Dangosodd yr athro iddo sut i'w anfon fel atodiad. Symbylodd hyn gyfnewid lluniau rhwng yr ysgolion.

Weithiau pan oedd nifer o ddelweddau i'w hanfon cywasgwyd nhw gyntaf gan ddefnyddio meddalwedd cywasgu, oedd yn golygu trosglwyddiad cyflymach.

Sgiliau ac offer allweddol

Y sgiliau allweddol ar gyfer yr enghraifft uchod yw:

- defnyddio camera digidol
- cadw delweddau ffotograffig digidol
- defnyddio meddalwedd cywasgu
- anfon atodiad e-bost

Yr offer allweddol yw:

- camera digidol
- meddalwedd cywasgu megis WinZip neu StuffIt
- cyfrifiadur sydd wedi ei gysylltu a'r Rhyngrwyd
- meddalwedd e-bost

Senario 5 - Grwpiau newyddion a byrddau bwletin

Mae grwpiau newyddion a Byrddau bwletin hefyd yn rhoi llwyfan i grwpiau trafod,a gellir eu cyrchu trwy'r cyfleuster grŵp newyddion a gyflenwir gan eich ISP. Gallwch danysgrifio i unrhyw nifer o'r miloedd o grwpiau newyddion sydd ar gael, ond yn wahanol i fforymau e-bost dydyn nhw ddim yn anfon pob neges ymlaen yn awtomatig i bob aelod o'r grŵp. Mae negeseuon a anfonir i grwp newyddion yn aros ar y gweinydd newyddion am amser penodedig. Mae'r tanysgrifiwr wedyn yn gofyn am dderbyn y negeseuon pan maent yn barod i'w darllen. Ni all y negeseuon gael eu dileu na'u golygu ond byddant yn diflannu yn awtomatig wedi'r cyfnod penodedig o amser. Un grŵp newyddion allai gynnwys trafodaethau defnyddiol yw uk.education.teachers. Ond dylai athrawon fod yn ymwybodol fod y rhan fwyaf o grwpiau newyddion heb eu safoni a gall tanysgrifwyr dderbyn deunydd amherthnasol neu hyd yn oed annymunol.

Y We Fyd-Eang (WWW)

Mae'r We Fyd-Eang (sydd hefyd yn cael ei hadnabod fel WWW neu'n syml 'y We') yn ffynhonnell symiau anferth o wybodaeth ar Safweoedd unigol wedi eu cysylltu trwy'r Rhyngrwyd. Safwe yw safle ar y Rhyngrwyd sydd yn debyg i lyfr, ond nad yw yn llinellog. Fel llyfr, mae pob Safwe yn cynnwys nifer (yn aml nifer fawr iawn) o dudalennau unigol. Bydd cysylltiadau (hypergysylltiadau) ar bob tudalen yn eich galluogi i fynd ymlaen i dudalennau eraill, ac yn y blaen, o gwmpas y We.

Gallwch gael mynediad i'r We trwy eich ISP gan ddefnyddio meddalwedd a elwir y ***porwr*** . Y ddau borwr a ddefnyddir yn fwyaf cyffredin yw *Internet Explorer* a *Netscape*. Gallwch ddarganfod gwybodaeth am unrhywbeth bron o'r We os ydych yn gwybod lle i edrych ond rhaid i'r chwilio gael ei wneud ar-lein felly gall fod yn ddrud.

Mae gan bob Safwe ei gyfeiriad unigryw ei hunan sydd yn cael ei adnabod fel ei Uniform Resource Locator (URL). Mae cyfeiriad Safwe yn dechrau efo http:// (hypertext transfer protocol) ond nid oes raid i chi deipio hyn fel arfer oherwydd mae'r porwr yn ei ddefnyddio yn ddigymell. Trwy'r Uned yma mae cyfeiriadau yn cael eu hysgrifennu heb yr http:// ar y dechrau. Nesaf, mae'r mwyafrif o URLs, er dim y cwbl, yn cynnwys y llythrennau 'www' wedi eu dilyn gan ddot. Llwythir y wybodaeth ar Safwe i lawr i'ch cyfrifiadur pan fyddwch yn cysylltu â'r Rhyngrwyd ac yn teipio ei URL i'ch porwr.

Er enghraifft: www.inclusive.co.uk

Fel efo cyfeiriadau e-bost, rhaid i URLs gael eu teipio yn gywir; ond gall teipio cyfeiriadau bob tro fod yn dasg drom. Un ffordd o wneud y swydd yn haws yw defnyddio yr ***hypergysylltiadau*** neu **gysylltiadau poeth** sydd wedi eu cynnwys ar y mwyafrif o dudalennau'r We. Mae hypergysylltiadau fel arfer yn cael eu dynodi gan eiriau priodol mewn inc glas wedi eu tanlinellu, neu mi allant gael eu dangos fel botymau (eiconau neu siapiau syml) gyda negeseuon tebyg i 'Click Here'. Pan fyddwch yn clicio ar hypergyswllt bydd yn agor tudalen arall ar y We yn awtomatig ac yn y ffordd yma gallwch symud o un dudalen i'r llall heb orfod teipio cyfeiriadau. Yn iaith y We syrffio neu bori yw hyn.

Senario 6 – Pori

Mae ysgol gynradd wedi cael gosod rhwydwaith o gyfrifiaduron yn ddiweddar ac yn awr mae gan bob ystafell ddosbarth gysylltiad i'r We. Mae'r cyfrifiaduron wedi eu gosod i agor ar Dudalen Gartref y Cyflenwr Gwasnaeth Rhyngrwyd (ISP). Oherwydd fod yr ISP yn gyflenwr addysgol mae'r dewisiadau sydd ar gael o'r dudalen gartref gan mwyaf yn berthnasol i anghenion yr athro.

Yn y sesiwn hyfforddi gyntaf a arweiniwyd gan Gyd-gysylltydd TGCh yr ysgol mae'r athrawon yn archwilio'r We trwy glicio ar rai o'r Hypergysylltiadau, a ddangosir fel geiriau wedi eu tanlinellu neu eiconau. Bob tro y byddant yn ymweld â thudalen newydd, mae'r porwr yn cofio lle mae nhw wedi bod fel eu bod yn medru symud yn ôl neu ymlaen trwy eu dewisiadau trwy glicio ar y botymau saethau ar y bar offer.

pori'r We Fyd-Eang

Sgiliau ac offer allweddol

Y sgiliau allweddol ar gyfer yr enghraifft uchod yw:

- logio ymlaen
- defnyddio botymau llywio ar y bar offer
- defnyddio hypergysylltiadau

Yr offer allweddol yw:

- cyfrifiadur wedi ei gysylltu â'r Rhyngrwyd
- meddalwedd pori

Senario 7 – Chwilio a Ffefrynnau

Os nad ydych yn gwybod cyferiad Safwe, neu os nad ydych yn gwybod pa safle fyddai'n rhoi i chi'r wybodaeth rydych eisiau, gallwch ddechrau chwiliad trwy glicio ar y botwm priodol ar far offer y Porwr. Enw'r feddalwedd sy'n gwneud y chwiliad yw ***Peiriant Chwilio.*** Mae yna nifer ar gael, fel:

AltaVista – www.altavista.co.uk

Ask Jeeves! – www.ask.co.uk

Excite – www.excite.co.uk

Google – www.google.com

Infoseek – www.go.com

Yahoo – uk.yahoo.com

peiriant chwilio - Google

I ddechrau chwiliad rydych yn teipio gair allweddol neu gwestiwn i roi syniad i'r peiriant o beth rydych yn chwilio amdano. Mae'r peiriant yn archwilio'r Safweoedd am y geiriau allweddol rydych chi wedi eu teipio ac yn dychwelyd efo teitlau safweoedd a allai fod yn addas, fel arfer efo disgrifiad byr yn sownd wrthynt.

dechrau chwiliad efo Google

Dylech glicio wedyn ar yr un mwyaf priodol neu ofyn iddo chwilio eto. Mae'r mwyafrif o beiriannau chwilio yn caniatâu'r dewis i chi o chwilio'r holl We neu dim ond safweodd y DU. Os ydych chi'n dewis chwilio am y Llychlynwyr ar draws y We gyfan rydych yn debygol o gael ymatebion am dim pêl-droed y Minnesota Vikings UDA oherwydd mae mwy o safleoedd Americanaidd ar y We na dim byd. Ond os chwiliwch safweoedd y DU yn unig rydych yn fwy tebygol o gael ymatebion am y Llychlynwyr ym Mhrydain. Bydd rhai peiriannau chwilio yn gofyn i chi pa fath o Lychlynwyr ydych chi eisiau.

canlyniadau chwiliad

Gallwch wneud eich chwiliad yn fwy manwl trwy deipio geiriau ychwanegol. Er enghraifft, os ydych chi eisiau darganfod am dornados i gefnogi eich prosiect Daearyddiaeth fe allech benderfynu chwilio'r We gyfan am safweoedd ar draws y byd. Os teipiwch chi y gair 'tornadoes' yn unig, bydd y detholiadau cyntaf yn debygol o gynnwys safleoedd am yr awyren ymladd,Tornado, ac efallai cwmniau efo'r gair Tornado yn eu henwau masnachol. Byddai manylu trwy deipio'r geiriau 'tornado' a 'tywydd' yn cynhyrchu canlyniadau fwy addas.

Pan fyddwch yn darganfod tudalen arbennig o ddefnyddiol y byddech yn debygol o fod eisiau ymweld â hi eto, gallwch ei ychwanegu i'ch Nodau Tudalen neu Restr Ffefrynnau – llyfr cyfeiriadau o URLs safweoedd. Y tro nesaf y byddwch eisiau ymweld â'r safle gallwch fynd i'ch rhestr Ffefrynnau a chlicio ar enw'r safle i'w hagor, yn hytrach na gorfod teipio'r cyfeiriad eto. Mae gan rai porwyr gyfleusterau 'smart' sy'n cofio URLs y safleoedd rydych chi wedi ymweld â nhw gan ragweld y cyfeiriad rydych chi eisiau wedi i chi deipio yr ychydig lythrennau cyntaf.

Enghraifft 7a

Roedd athrawes gynhaliol i weithio gyda disgybl oedd wedi cael diagnosis o syndrom Asperger ac roedd eisiau darganfod mwy am y cyflwr. Tybiai y byddai'r We yn gallu helpu a chafodd afael ar URL Y Gymdeithas Awtistiaeth Genedlaethol, teipio'r cyfeiriad i'r llinell gyfeiriad yn ei meddalwedd pori a logio ymlaen. (www.oneworld.org/autism_uk)

Edrychodd ar dudalen gartref y safle a phenderfynu y gallai 'About Autistic Spectrum Disorders' fod yn lle da i ddechrau, felly cliciodd ar hwnnw. Yno cafodd wybodaeth ddiddorol ar syndrom Asperger, a phenderfynodd gadw URL y dudalen yn ei rhestr 'Ffefrynnau' trwy glicio ar yr eicon bar offer ar gyfer ychwanegu i'r Ffefrynnau. Y tro nesaf y bydd eisiau edrych arno gall glicio yr enw yn ei rhestr Ffefrynnau i'w agor, yn lle teipio'r cyfeiriad i mewn. Penderfynodd wedyn geisio defnyddio y cyfleuster Chwilio i ddod o hyd i adnoddau eraill ar y Rhyngrwyd.

cyrchu Safwe ac ...

Cliciodd ar yr eicon ***Search*** ar y bar offer ac fe agorodd blwch deialog. Teipiodd 'Asperger's Syndrome' yn y blwch ***Search For*** a rhoddwyd rhestr gychwynnol o 10 safle iddi, pob un efo disgrifiad byr. Agorodd y rhai mwyaf defnyddiol yr olwg ac ychwanegodd y mwyaf addas i'w rhestr Ffefrynnau.

ychwanegu at eich Ffefrynnau ar gyfer cael gafael arno'n hawdd eto

Sgiliau ac offer allweddol

Y sgiliau allweddol ar gyfer yr enghraifft uchod yw:

- logio ymlaen
- teipio URL i mewn
- defnyddio peiriant chwilio
- ychwanegu URLs i Ffefrynnau / Nodau Tudalen

Yr offer allweddol yw:

- cyfrifiadur wedi ei gysylltu â'r Rhyngrwyd
- meddalwedd pori

Enghraifft 7b

Mae athro mewn ysgol arbennig eisiau creu Safwe felly mae'n gwirio beth mae ysgolion eraill yn wneud.

"Mi es i glywed sgwrs yn yr arddangosfa BETT am ysgolion arbennig yn creu eu Safweoedd eu hunain. Roedd gen i ddiddordeb gwneud hyn felly meddyliais y byddwn yn mynd yno i gael syniadau. Disgrifiodd y cyflwynydd brosiect ymchwil ac wedyn cafwyd cyflwyniad gan athrawon o ddwy ysgol oedd wedi ymwneud â'r prosiect. Rhoddodd rheini gyngor ymarferol defnyddiol iawn ac er fod y disgyblion yn eu hysgolion hwy â gwahanol anghenion i'm disgyblion i, roedd eu cyngor cyffredinol o gymorth. Rhoddodd y cyflwynydd URLs ddwy Safwe y gallem archwilio i gael mwy o wybodaeth:

" www.sed.kcl.ac.uk/special/makingweb.html yw tudalen gartref y prosiect uchod. O'r safle honno llwythais gopi o'r adroddiad 'Making the Web Special' i lawr i'w ddarllen yn ddiweddarach. Mae'n hawdd iawn i'w ddarllen ac mae wedi rhoi llawer o wybodaeth ymarferol i mi.

gwneud y We yn arbennig

"Mae'r cyswllt yn mynd â chi at restr o safleoedd ysgolion arbennig gyda disgrifiadau. Mae yna bron i gant o ysgolion ar y rhestr a doedd gen i mo'r amser i edrych arnynt i gyd felly argraffais y rhestr i'w darllen ac i wneud rhestr fer o'r rhai oedd o ddiddordeb i mi. Mae enw pob ysgol yn hypergyswllt, felly pan roeddwn wedi gwneud fy rhestr fer y cwbl oedd raid i mi wneud oedd clicio arno i gyrraedd y safle. Ychwanegais y rhai mwyaf diddorol i'm rhestr Ffefrynnau."

Sgiliau ac offer allweddol

Y sgiliau allweddol ar gyfer yr enghraifft uchod yw:

- logio ymlaen
- teipio URL i mewn
- dod o hyd i adnoddau
- defnyddio hypergysylltiadau
- ychwanegu at Ffefrynnau / Nodau Tudalen

Yr offer allweddol yw:

- cyfrifiadur wedi ei gysylltu â'r Rhyngrwyd
- porwr y We

Senario 8 – Trafodaethau ar-lein – Cynadledda ar y We

Weithiau mi allech ddod ar draws Safwe sydd yn eich galluogi i gymryd rhan mewn trafodaeth ar-lein. Gelwir hyn yn Gynadledda ar y We.

Mae ICTS yn cynnig Safwe, www.inclusive.net ar gyfer y bobl sy'n cymryd rhan yn ein hyfforddiant. Mae hon yn cynnwys llawer o wybodaeth, a'r holl ddeunyddiau hyfforddi. Bydd gan eich ysgol enw defnyddiwr a chyfrinair fydd yn caniatau i chi fynd i mewn i'r safle.

Mae'r Safwe **inclusive.net** yma hefyd yn rhoi fforwm trafod ar-lein wedi ei seilio ar y We sydd yn hygyrch i holl gyfranogwyr a hyfforddwyr ICTS. Fforwm breifat yw hon lle gall aelodau drafod materion o gyd-ddiddordeb a holi ac ateb cwestiynau mewn amgylchedd gydymdeimladol. Efallai fod gennych chi broblem benodol ac yn meddwl tybed oes athro arall wedi dod ar draws rhywbeth tebyg. Neu efallai eich bod newydd drio rywbeth weithiodd yn wych i ddisgybl arbennig a'ch bod yn dymuno dweud wrth y byd! Gallwch bostio neges a (gobeithio) daw ymateb cyfeillgar gan athro arall neu hyfforddwr. Gall hyn wedyn ddechrau cyfres o ymatebion ar yr un pwnc. Gelwir cyfres o gyfraniadau i drafodaeth sengl fel hyn yn ***llinyn***. Trwy'r dull yma, gallwch ddechrau adeiladu rhywdwaith o gyfeillion a chydweithwyr efo problemau a llwyddiannau tebyg.

Gall pawb sydd â hygyrchedd i'r Safwe **inclusive.net** bori trwy sgyrsiau yn y Fforwm Trafodaeth. Efallai mai dim ond eisiau gweld beth mae pobl eraill yn drafod ar y funud rydych chi - fe allai fod yn berthnasol i'ch stafell ddosbarth chi.

I gymryd rhan rhaid i ddefnyddwyr gofrestru cyfrif o'r tu mewn i'r fforwm. Mae sefydlu cyfrif yn broses sydyn - rhoir cyfrinair wedi ei amgryptio i'r ymgeisydd a'i ddangos ar y sgrîn. Gall y cyfrinair cychwynnol gael ei newid gan y defnyddiwr ymhellach ymlaen.

Unwaith fod gan y defnyddiwr gyfrif, gall gymryd rhan mewn sgyrsiau cyfredol neu ddechrau sgwrs ei hunan. Mae unrhyw negeseuon y mae'r defnyddiwr yn eu postio yn cael eu rhagolygu (er fod hyn yn dibynnu ar ddymuniad y defnyddiwr); caniatâ hyn i'r defnyddiwr wirio yr hyn mae wedi ysgrifennu cyn i'r neges gael ei phostio i'r fforwm. Hyd yn oed wedi i'r neges gael ei phostio, mae gan y defnyddiwr tua 30 munud i olygu'r neges os dymuna.

Dull gweithredu ar gyfer cymryd rhan yn y fforwm

Sefydlu cyfrif

Ewch i'r Safwe **inclusive.net** yn www.inclusive.net a logiwch ymlaen. Teipiwch enw defnyddiwr eich ysgol a'r cyfrinair, fydd yn caniatâu i chi gyrchu'r safle. Ewch i'r **Discussion Forum**; yn syth mi fyddwch yn medru pori unrhyw sgyrsiau cyfredol i'ch helpu i gael syniad o sut mae'r fforwm yn gweithio.

I gofrestru cyfrif dewiswch ***Get an account*** o'r brif ardal lywio.

Cyfrineiriau

Pan fyddwch wedi rhoi y wybodaeth angenrheidiol ac wedi pwyso ***Continue Registration***, bydd sgrîn newydd yn dangos y cyfrinair wedi ei amgryptio a aseiniwyd i chi (gan gymryd fod y wybodaeth a roesoch wedi ei derbyn). Ysgrifennwch y cyfrinair i lawr neu argraffwch y sgrîn. Cynhyrchir y cyfrinair gan feddalwedd arbennig a'i gadw'n ddiogel; fydd neb yn gallu ei ailadrodd wrthych os anghofiwch o. Bydd y cyfrinair hefyd yn cael ei e-bostio i'r cyfeiriad e-bost a roesoch pan yn cofrestru.

fforwm drafod **inclusive.net**, ar gyfer pobl sy'n cymryd rhan yn ein hyfforddiant

Os hoffech chi newid eich cyfrinair gallwch wneud hyn yn y ***Profile Editor*** (gweler isod). Os digwydd i chi anghofio eich cyfrinair, cysylltwch ag un o weinyddwyr y fforwm efo'ch enw defnyddiwr a'ch cyfeiriad e-bost ac fe aseinir cyfrinair newydd i chi.

Noder fod yr enw defnyddiwr a'r cyfrinair yma yn unigryw i'ch defnydd o'r Fforwm Trafod ac na fydd yn caniatâu cyrchiad cyfangwbl i chi i'r Safwe 'inclusive.net'. Bydd enw defnyddiwr a chyfrinair wedi eu aseinio i'ch ysgol er mwyn i chi allu logio i mewn i'r brif Safwe.

Ymuno â'r trafod

Unwaith fod gennych gyfrif gallwch gymryd rhan mewn unrhyw sgwrs sydd ar gael. I bostio neges i drafodaeth gyfredol llenwch y blwch ***Add a Message*** ar waelod y dudalen. Lle mae'n bosib, gallwch glicio ar fotwm ***Create New Conversation*** i ddechrau trafodaeth newydd. Bydd hyn yn ychwanegu is-bwnc i'r pwnc rydych chi'n ei nodi ac yn dechrau sgwrs efo'r neges cychwynnol rydych chi'n ei ysgrifennu. Wedi llenwi'r linell pwnc, postiwch neges fel y disgrifiwyd uchod.

'llinyn' trafodaeth a blwch neges i bostio ymateb

Nodweddion allweddol a llywio Fforwm Trafod inclusive.net

Trafodaeth

Pynciau

Mae hwn yn dangos tudalen agoriadol y fforwm sydd yn rhestru yr holl bynciau sydd ar gael i'w trafodar hyn o bryd.

'Last Day'

Yn dangos rhestr o'r holl negeseuon bostiwyd i'r fforwm o fewn y diwrnod blaenorol.

'Last Week'

Yn dangos rhestr o'r holl negeseuon bostiwyd i'r fforwm o fewn yr wythnos flaenorol

Tree view

Yn dangos rhestr o bynciau ac is-bynciau mewn siap coeden.

Gwasanaethau

Negeseuon newydd

Arddangos yr holl negeseuon newydd bostiwyd ers i chi ymweld â'r fforwm ddiwethaf.

Chwiliad gair allweddol (Keyword Search)

Chwilio'r fforwm trwy air allweddol, gan osod cyfyngiadau dewisol i ffrâm amser neu bwnc penodol.

Golygydd Proffil

Gall y ***Profile Editor*** gael ei weld fel panel rheoli; gall defnyddwyr logio i mewn i'r Golygydd Proffil a newid gwahanol nodweddion o'r fforwm i weddu eu anghenion. Mae'n caniatau i'r defnyddiwr osod ei gyfeiriad e-bost, derbyn rhai llythyrau i'r fforwm fel e-bost uniongyrchol a newid eu cyfrinair fforwm. Mae proffiliau defnyddwyr ar gael i unrhywun sy'n pori'r fforwm trwy glicio ar yr enw defnyddiwr a ddangosir ar ddechrau'r neges a bostiwyd. Gall y defnyddiwr lwytho llun bychan ohonynt eu hunain (hyd at 20 kB) i fyny a rhoi gwybodaeth bersonol arall i greu eu proffil.

Un nodwedd bwerus o Fforwm Drafod **inclusive.net** yw y gall y defnyddiwr ddewis rhai negeseuon fel e-bost uniongyrchol. Gan ddefnyddio y Golygydd Proffil gall y defnyddiwr ddewis derbyn pob neges am bwnc arbennig, unrhyw ymatebion i'w negeseuon ei hunan neu gopïau o'i negeseuon ei hunan fel e-bost.

Agor cyfrif

I gymryd rhan yn y fforwm rhaid i ddefnyddwyr gofrestru cyfrif. Pan fyddwch yn dewis 'Get an account' cewch gais i deipio yr enw defnyddiwr dewisedig, eich enw llawn a'ch cyfeiriad e-bost. Bydd rhaid i'ch enw defnyddiwr fod yn unigryw felly rhaid i chi ddefnyddio eich dychymyg! Bydd eich enw llawn a'ch enw defnyddiwr yn cael ei arddangos wrth ymyl unrhyw negeseuon y byddwch yn eu postio. Mae'n rhaid i'r cyfeiriad e-bost rydych yn ei roi fod yn ddilys.

Help

Dechrau Cyflym (Quick start)

Golwg cyffredinol byr o'r fforwm a sut i ddechrau ei ddefnyddio.

Dechrau (Getting Started)

Amlinelliad mwy manwl o'r fforwm.

Cywiro problemau (Troubleshooting)

Y lle cyntaf y dylech fynd iddo os ydych yn cael trafferthion technegol efo'r fforwm.

Cyswllt (Contact)

Sut i gysylltu â gweinyddwyr y fforwm.

Gadael y fforwm (Leave the Forum)

Gadael y Fforwm Drafod a dychwelyd i'r brif Safwe **inclusive.net**

Enghraifft 8

Mae Gwe-gynadleddau weithiau yn cael eu dangos am amser cyfyngedig i drafod digwyddiad arbennig ac mae gan rai slot 'amser real' fel bod pobl yn medru logio ymlaen ar amser penodedig a chymryd rhan yn y ddadl. Gall Gwe-gynadleddau fod yn ychwanegiad defnyddiol i drafodaeth wyneb-yn-wyneb a mantais fawr yw eich bod yn medru 'mynychu' cynhadledd pryd bynnag y mynnwch heb orfod teithio i unlle. Gallwch ddewis yr agweddau sydd o ddiddordeb i chi a gwneud cyfraniad os dymunwch.

Mae athro sy'n gweithio efo disgyblion ag anawsterau dysgu difrifol yn tanysgrifio i'r cyfnodolyn o'r UDA 'Closing the Gap', sydd ag erthyglau am ddefnyddio TGCh i gefnogi addysg dysgwyr o'r fath. Bob blwyddyn mae'r cyfnodolyn yn trefnu cynhadledd yn yr UDA ac mae'r athro yn medru logio ymlaen i'r Safwe (www.closingthegap.com) a chymryd rhan yn y gynhadledd ar-lein sy'n dilyn y cyflwyniadau. Mae'r safle yn dangos testun cyflwyniadau y prif siaradwyr iddo eu darllen ar-lein neu eu hargraffu i'w darllen yn hwyrach. Mae hefyd gyfleuster adborth lle y gall darllenwyr wneud sylwadau ar y cyflwyniadau neu ofyn cwestiynau i'r siaradwyr. Mae'r sylwadau hyn yn ymddangos ar y Safwe ac mae'r cyflwynydd yn ymateb, gan greu trafodaeth ar-lein. Mae hyn yn gyfle i'r athro yn y DU i ryngweithio efo rhai o'r ymarferwyr mwyaf diddorol yn yr UDA ac hefyd trafod efo cydweithwyr ar draws y byd.

Sgiliau ac offer allweddol

Y sgiliau allweddol ar gyfer yr enghraifft uchod yw:

- logio ymlaen
- teipio URL
- cymryd rhan mewn cynhadledd y We

Yr offer allweddol yw:

- cyfrifiadur wedi ei gysylltu i'r Rhyngrwyd
- meddalwedd pori

Gwe-gynhadledd ar awtistiaeth

Materion i'w hystyried ynglŷn â'r We

Gall y We fod yn ffynhonnell gwybodaeth werthfawr ar gyfer gwella'r cwricwlwm. Mae natur rhyngweithiol pori ar y We yn symbyliad i rai disgyblion, oherwydd gallant ddilyn eu llwybr archwilio eu hunain. Bydd llawer efallai yn dechrau trwy edrych am wybodaeth ar bwnc sydd o ddiddordeb arbennig iddynt. Neu gallech eu helpu trwy i chi ddewis Safwe briodol iddynt. Yn wahanol i'r e-bost nid yw'r We yn dibynnu mor drwm ar destun ar gyfer cyfathrebu . Yn aml ceir lluniau, sain a hyd yn oed dameidiau o fideos neu animeiddio ar dudalennau'r We. Er fod rhain yn cymryd yn hirach i'w llwytho i lawr, gall gwybodaeth aml-gyfrwng fod yn fwy hygyrch i rai disgyblion na thestun yn unig. Hyd yn oed gyda testun, mae awduron y We yn tueddu i gyflwyno gwaith mewn tameidiau llai a ellir eu gweld yn gyfan ar dudalen y sgrîn.

Oherwydd hwyluster ysgrifennu eich Gwe-dudalennau eich hunain, mae yna lawer yn cynnwys deunydd annymunol fel hiliaeth neu bornograffi. Mae'r mwyafrif o ISPs sy'n gwasanaethu ysgolion yn gwirio cynnwys cyn ei basio ymlaen, ond hyd yn oed efo cynnwys sydd wedi ei wirio mae'n hanfodol fod ysgolion yn sefydlu rheolau ar gyfer defnydd o'r Rhyngrwyd gan eu disgyblion. Os yn bosibl dylid annog disgyblion i ystyried y math o ddeunydd all dramgwyddo neu fod yn annerbyniol. Fe allai rhieni hefyd fod yn rhan o'r peth. Gall yr ysgol fynnu fod disgyblion yn arwyddo cytundeb ynglŷn â'r materion hyn a rhai eraill mwy cyffredinol fel diogelwch, hawlfraint a throsglwyddo deunyddiau rhwng ysgol a chartref. Nid yw'n ymarferol i athrawon fonitro'r hyn mae disgyblion yn edrych arno bob munud, ond mae meddalwedd pori yn cofnodi beth sydd wedi cael ei weld felly mae'n bosib cadw golwg. Yn union fel mae disgyblion yn gorfod dysgu rheolau sylfaenol i osgoi perygl yn y byd y tu allan i'r ysgol a'r cartref, dylent gael eu haddysgu i osgoi perygl pan yn archwilio cyberspace.

Senario 9 – Creu safle ar y We

Mae ISPs fel arfer yn rhoi gofod ar y We i gleientau allu cael eu Safwe eu hunain. Gofod ar ddisg galed un o We-weinwyr (cyfrifiaduron) yr ISP yw hwn, mewn gwirionedd. Mae ysgrifennu ar gyfer y We yn awr yn eithaf di-drafferth oherwydd gallwch osgoi gorfod ysgrifennu yn iaith arbennig hyper-destun (HTML) a ddefnyddir gan borwyr y We. Gall dogfennau grewyd ar brosesydd geiriau yn awr gael eu cadw mewn fformat HTML yn barod ar gyfer eu llwytho i fyny i'r Rhyngrwyd, er fod gwneud i We-dudalennau edrych fel y dymunwch yn defnyddio'r dull yma yn aml yn anoddach na defnyddio meddalwedd un pwrpas. Caniata rhaglenni fel *HotMetal Pro* i dudalennau gael eu creu mewn gwahanol foddau golygu, yn debyg i gyhoeddi bwrdd gwaith (DTP). Mae hefyd raglenni awduro syml i'w cael ar y We, wedi eu targedu yn arbennig at ddisgyblion mewn ysgolion, rhai fel *SiteCentral* o TAG Learning Ltd. Er fod y cynhyrchion yma yn sicr yn gwneud creu tudalennau yn haws nag erioed o'r blaen, fel rhywun sy'n gyfrifol am gynnal Safwe mae hi werth ystyried dysgu rhywfaint o HTML elfennol a defnyddio golygydd testun i greu tudalennau syml. Pan fo rhywbeth yn mynd o'i le efo'r offer yma, fel sy'n digwydd weithiau, mae'n ddefnyddiol i wybod ychydig o HTML i edrych am gamgymeriadau amlwg.

Gellir dod o hyd i breimiwr HTML sylfaenol yn: www.htmlprimer.com

Gellir gweld eglurhad mwy cynhwysfawr o HTML yn:
www.ncsa.uiuc.edu/General/Internet/WWW/HTMLPrimer.html

Beth bynnag yw'r offer creu Gwe-dudalennau a ddefnyddir mae'n arfer da i wirio tudalennau all-lein gan ddefnyddio gymaint o raglenni pori ag sy'n bosibl. Mae'r porwyr mwyaf cyffredin, *Internet Explorer* a *Netscape*, yn rhad ac am ddim, a gellir eu darganfod ar nifer o ddisgiau cloriau cylchgronnau cyfrifiadurol.

Wedyn fe yrrir Gwe-dudalennau grewyd all-lein i ISP lle cânt eu storio, i gael eu gwneud yn hygyrch ar weinydd yr ISP i unrhyw un eu gweld efo porwr y We. Gelwir y broses o drosglwyddo ffeiliau i weinydd yr ISP yn File Transfer Protocol (FTP). Mae rhai rhaglenni masnachol yn cynnwys nodweddion cynwysiedig ar gyfer anfon neu lwytho tudalennau i fyny i'ch gofod ar y We trwy FTP. Ond, mae'r offer am ddim neu rhanwedd megis *WS-FTP* neu *CuteFTP* yn cynnig yr holl nodweddion sydd eu hangen i lwytho Gwe-dudalennau i fyny. Mae offer FTP fel arfer yn gweithio trwy ddefnyddio rhyngwyneb syml sy'n caniatâu i'r ddisg galed lleol a'r gofod ar y We ar weinydd yr ISPs gael eu cyrchu yr un pryd.

Mi allai athrawon fod eisiau creu Safwe i roi cyhoeddusrwydd i'w hysgol, rhannu adnoddau y maent wedi eu gweld yn ddefnyddiol, neu ddathlu llwyddiannau disgyblion. Wrth greu eu Safwe eu hunain mae'r disgyblion yn cael modd o gyhoeddi ar gyfer cynulleidfa newydd, gan eu gwneud yn rhan o'r gymuned ehangach.

Mae'r cyhoeddiad 'Making the Web Special' yn disgrifio prosiect yn ymchwilio i'r defnydd o'r We mewn ysgolion arbennig . Gellir dod o hyd iddo ar:
www.sed.kcl.ac.uk/special/makingweb.html

Unwaith fod Safwe wedi ei hysgrifennu, efallai y bydd y perchennog eisiau ystyried ymuno â Gwe-gylch, sydd yn cysylltu safleoedd efo themâu tebyg. Ceir mwy o fanylion yn:
www.webring.org

Enghraifft 9

Dymuna athro greu Safwe ar gyfer ei ysgol. Mae'r cytundeb rhwng yr ysgol a'i ISP yn rhoi gofod iddynt ar y We ac hefyd gyfeiriad.

Eglurodd yr athro sut yr aeth o gwmpas y dasg.

"Roeddem ni angen meddwl am gynnwys a strwythur y Safwe - beth oedd y cynnwys am fod a sut roedd y darllenwr yn mynd i symud o un rhan i'r llall. Penderfynwyd agor efo un ffotograff digidol o'r ysgol a dewislen o eiconau ar gyfer y tudalennau eraill - prospectws yr ysgol, map, ardal cyhoeddi gwaith y disgyblion. Roeddem ni eisiau tudalennau syml, di-ffys

heb 'fframiau'. Er ein bod yn hoffi'r ffordd y mae ysgolion eraill yn defnyddio graffeg, doedden ni ddim eisiau gormod oherwydd ei fod yn cymryd gymaint o amser i'w lwytho i lawr. Roeddem hefyd yn poeni am faterion diogelwch disgyblion felly penderfynwyd peidio defnyddio ffotograffau o ddisgyblion efo'u henwau. Hefyd roedd y busnes o gael caniatâd y disgyblion (a'u rhieni) i gyhoeddi ffotograffau ar y We. Yn ein barn ni, nid oes gan rai o'n disgyblion ni ddealltwriaeth ddigonol o beth yw'r We i fedru gofyn eu caniatâd yn ddilys. Nid oes bellach unrhyw angen i wybod 'iaith y We' oherwydd gallwn gyfansoddi tudalennau mewn rhaglen un-pwrpas.

"Adnodd defnyddiol i ni pan oeddem yn cynllunio ein Safwe oedd y cyhoeddiad 'Making the Web Special'.

"I ddechrau dylunio safle gwnaethom ddrafftiau o rai tudalennau allweddol fel tudalen newyddion a thudalen yn cysylltu i lwyddiannau disgyblion ac enghreifftiau o'u gwaith. Hefyd gwnaethom restr o adnoddau roeddem angen eu casglu , fel ffotograffau a dogfennau wedi eu creu ar brosesydd geiriau.



cynllunio Safwe

"Efo ein camera digidol cymerwyd llun ar gyfer tudalen gyntaf y safle. Fe lwython ni o i lawr o'r camera i'r cyfrifiadur ond roedd o'n rhy fawr ar gyfer y dudalen flaen. Felly defnyddion ni *PaintShop Pro* i newid maint y llun a'i gadw fel JPEG, gan mai hwn yw'r fformat delwedd gorau ar gyfer ffotograffau.

"Fe gadwon ni unrhyw ddelweddau a ddefnyddiwyd mewn ffolder arwahân ar ein disg galed, fel y byddent yn cael eu storio efo'i gilydd. Hefyd gwnaethom ffolder arwahân ar gyfer y prif rannau er mwyn cadw'r Gwe-dudalennau yn drefnus wrth ddatblygu'r safle.

"Defnyddion ni *HotMetal Pro* i greu ein tudalennau. Mae gan hwn fodd rhagolwg fel ein bod yn medru gwirio wrth fynd ymlaen sut y byddai ein tudalennau yn edrych mewn porwr. Yn ogystal â gallu teipio yn syth i'r rhaglen roedden ym medru copïo a phastio testun yn hawdd o ddogfennau oedd wedi eu creu gan brosesydd geiriau a gadwyd ynghynt megis y prospectws ysgol, cylchlythyr newyddion ac enghreifftiau o waith y disgyblion. Pan roeddem yn hapus â rhai Gwe-dudalennau, cawsom ragolwg ohonynt yn yr Internet Explorer a Netscape i sicrhau eu bod yn edrych fel y dymunem mewn mwy nag un porwr.

"Fe benderfynon ni ddefnyddio *WS-FTP* i lwytho ein Gwe-dudalennau i fyny i'n gweinydd ISP gan fod y meddalwedd yn cael ei roi am ddim gan ein ISP. Fe ffurfweddon ni'r feddalwedd efo'r cyfeiriad FTP ar gyfer ein gofod ar y We, ein enw defnyddiwr a'n cyfrinair. Unwaith ein bod ar-lein cysyllton ni i'n gweinydd ISP trwy *WS-FTP* a llwytho'n tudalennau.

"Wedyn fe wirion ni ein Gwe-dudalennau ar-lein efo'n porwr trwy deipio ein cyferiaid unigryw ar y We a roid i ni gan ein ISP.

"Penderfynwyd mai'r ffordd gallaf i reoli'r safle fyddai i'w ddiweddaru yr un pryd ag y byddem yn cyhoeddi ein cylchlythyr ysgol nesaf."

Sgiliau ac offer allweddol

Y sgiliau allweddol ar gyfer yr enghraifft uchod yw:

- cynllunio ac ysgrifennu Gwe-dudalennau
- defnyddio File Transfer Protocol
- defnyddio camera digidol a chadw'r delweddau ar ddisg

Yr offer allweddol yw:

- cyfrifiadur wedi ei gysylltu â'r Rhyngrwyd
- meddalwedd y porwr
- meddalwedd creu Gwe-dudalennau – *HotMetal Pro*
- meddalwedd FTP – *WS-FTP* neu modd cyhoeddi FTP mewnol *HotMetal*'

Senario 10 – Cyrchu e-bost i bobl efo anableddau

Gall post electronig fod yn gyfrwng sy'n symbylu ac mae llawer o athrawon yn ei ddefnyddio'n llwyddiannus yn eu dysgu, gan greu cyfleoedd ysgrifennu ystyrlon i'w disgyblion. Gallwch weld enghreifftiau o ddefnydd dosbarth a disgybl yn yr Unedau eraill o fewn y rhaglen yma.

Mae cyflymder cyfathrebu electronig yn ddeniadaol i rai disgyblion - gellir cyfnewid negeseuon yn gyflym heb brin ddim oedi. Mae eraill yn gwerthfawrogi y rhyddid i gyfansoddi neges yn eu pwysau, gan ddefnyddio pa bynnag gymhorthion maent eu hangen. Yn sylfaenol mae E-bost yn gyfrwng testun, ond gellir defnyddio banciau geiriau ar fysellfyrddau troshaen neu gridiau ar y sgrîn, prosesyddion symbol, darllenwyr sgrîn, prosesyddion geiriau llafar a thechnoleg gefnogol arall i gynorthwyo disgyblion pan yn cyfansoddi a darllen negeseuon.

Gallai rhai disgyblion sydd ag anawsterau dysgu difrifol a chymleth fod angen help er mwyn gwneud y defnydd o e-bost yn ystyrlon. Mae'r llyfryn 'Making communication special' yn disgrifio sut mae rhai ysgolion arbennig wedi helpu eu disgyblion trwy osod e-bost yng nghyd-destun ffurfiau eraill o gyfathrebu. Gellir ei lwytho i lawr yn rhad ac am ddim o: www.sed.kcl.ac.uk/special/makingcomm.html

Mae e-bost yn gyfrwng wedi ei seilio mewn testun, a all greu rhwystrau i'r disgyblion hynny sydd angen symbolau i gefnogi testun. Mae *Inter-Comm* o Widgit Software yn ddatblygiad newydd cyffrous fydd yn hwyluso'r defnydd o e-bost i ddisgyblion efo anawsterau dysgu difrifol a chymleth. Ei fwriad yw i roi cyrchiad annibynnol, di-destun i e-bost ar gyfer defnyddwyr symbolau, ond bydd symlrwydd y rhaglen yn sicr o apelio at gynulleidfa fwy.

Enghraifft 10a

Mewn ysgol ar gyfer disgyblion ag Anawsterau Emosiynol ac Ymddygiadol mae'r disgyblion wedi derbyn yr e-bost yn frwdfrydig, ond mae gan nifer anawsterau llythrennedd a thrafferthion cyfansoddi negeseuon. Mae gan y meddalwedd cyfathrebu wiriwr sillafu y mae rhai plant yn ei ddefnyddio. Mae eraill angen mwy o help felly mae eu cymhorthydd dosbarth yn paratoi troshaenau unigol iddynt i'w defnyddio gyda bysellfwrdd troshaen. Mae'r troshaenau yn cyfuno ymadroddion sy'n cael eu defnyddio yn aml ac sy'n gyffredin i bob disgybl, a banciau o eiriau sydd eu hangen ar ddisgyblion unigol. Trwy ddefnyddio'r troshaenau, gall yr ysgrifennwr roi geiriau a chymalau cyfan yn ei feddalwedd e-bost trwy bwyso yr ardaloedd priodol ar y troshaen.

troshaen ar gyfer e-bostio

Sgiliau ac offer allweddol

Y sgiliau allweddol ar gyfer yr enghraifft uchod yw:

- gyrru a derbyn negeseuon e-bost
- gwirio sillafu neges e-bost
- creu a gyrru ffeiliau troshaen
- defnyddio ffeiliau troshaen efo'r meddalwedd e-bost

Yr offer allweddol yw:

- cyfrifiadur wedi ei gysylltu â'r Rhyngrwyd
- meddalwedd e-bost
- meddalwedd dylunio troshaen
- bysellfwrdd troshaen (bysellfwrdd IntelliKeys neu Concept)

Enghraifft 10b

Mewn ysgol ar gyfer disgyblion efo anhawsterau dysgu cymhedrol, gwneir defnydd aml o brosesyddion geiriau llafar i gefnogi llythrennedd y disgyblion. Hoffai'r disgyblion gael cefnogaeth debyg pan yn darllen eu negeseuon e-bost, felly mae eu hathro wedi dangos iddynt sut i gopïo neges i mewn i'w prosesydd geiriau llafar. Pan gyrhaedda'r neges mae'r disgyblion yn amlygu'r testun yn y neges ac yn dewis y gorchymyn ***Copy***. Yna maent yn agor y prosesydd geiriau llafar ac yn dewis y gorchymyn ***Paste***. Mae hyn yn pastio'r testun i mewn i'r prosesydd geiriau llafar.



yr e-bost a gyrhaeddodd...

Gyda'r gefnogaeth yma mae'r negeseuon yn rhoi deunydd darllen ysgogol, perthnasol i'r disgyblion. Gall rhai disgyblion gael yr holl neges wedi ei ddarllen iddynt trwy ddewis yr eicon ***Read All***. Mae disgyblion eraill yn ceisio'i ddarllen eu hunain gan ddefnyddio cliwiau cyd-destun a ffonig, ond gallant glicio ar eiriau unigol i'w clywed yn cael eu darllen trwy ddewis yr eicon ***Read Word***.



wedi ei bastio i mewn i'r prosesydd geiriau llafar - IntelliTalk

Mae'r disgyblion hefyd yn defnyddio technoleg i'w cynorthwyo i gyfansoddi negeseuon mewn testun. Mae eu hathrawon yn paratoi gridiau *Clicker 4* ar y sgrîn iddynt efo geiriau allweddol i'w helpu i ysgrifennu eu negeseuon.

Mae'r gridiau wedi eu ffurfweddu i anfon cynnwys y celloedd yn uniongyrchol i'r meddalwedd cyfathrebu fel unwaith fod y disgyblion yn clicio ar y celloedd mae'r geiriau yn ymddangod yn y blwch neges.

Green Class	Blue Class	Science Museum	Space Exhibition
Hello	Thank you	Please	
liked	want	go	saw
stories	pictures	things	send
you	your	we	us
from	about		

grid ar y sgrîn ar gyfer cyfansoddi e-bost – yn defnyddio Clicker

Sgiliau ac offer allweddol

Y sgiliau allweddol ar gyfer yr enghraifft uchod yw:

- copïo testun o'r meddalwedd cyfathrebu i brosesydd geiriau llafar
- gwneud gridiau ar y sgrîn
- defnyddio gridiau ar y sgrîn efo meddalwedd cyfathrebu

Yr offer allweddol yw:

- cyfrifiadur wedi ei gysylltu â'r Rhyngrwyd
- meddalwedd e-bost
- prosesydd geiriau llafar, *IntelliTalk*
- meddalwedd gwneud gridiau, *Clicker 4*



gosod Clicker i yrru testun yn syth i'r meddalwedd e-bost

Enghraifft 10c

Mae ysgol uwchradd ar gyfer dysgwyr ag anawsterau dysgu difrifol a chymleth yn gwneud defnydd eang o brosesyddion symbol fel *Inclusive Writer* a *Writing with Symbols 2000*.

I lawer o'u disgyblion nid yw testun heb gefnogaeth yn hygyrch felly mae'r athrawon yn rhoi negeseuon testun e-bost yn y prosesydd symbol fel y maent yn eu derbyn.

Ar gyfer rhai disgyblion mae'r athro yn tynnu allan symbolau ar gyfer pob dim ond y geiriau allweddol i wneud y neges yn fwy hygyrch. Gall y disgyblion ddarllen eu negeseuon ar y sgrîn neu o allbrint ar bapur. Mae prosesyddion symbol yn gymorth iddynt greu negeseuon hefyd. Paratoir geiriau allweddol efo symbolau ar fysellfwrdd troshaen neu grid ar y sgrîn iddynt.



yr e-bost a gyrhaeddodd...



wedi ei bastio i mewn i brosesydd geiriau symbol – Inclusive Writer



cefnogaeth grid i ysgrifennu ateb

Sgiliau ac offer allweddol

Y sgiliau allweddol ar gyfer yr enghraifft uchod yw:

- copïo testun o feddalwedd cyfathrebu i fewn i brosesydd symbol
- tynnu allan symbolau mewn prosesydd symbolau
- cyfansoddi negeseuon electronig efo prosesydd symbolau
- gwneud gridiau ar y sgrîn
- defnyddio gridiau ar y sgrîn efo meddalwedd cyfathrebu

Yr offer allweddol yw:

- cyfrifiadur wedi ei gysylltu efo'r Rhyngrwyd
- meddalwedd e-bost
- prosesydd symbol
- meddalwedd creu gridiau

Senario 11 – Cyrchu'r We i bobl efo anableddau

Er y gall y We fod yn adnodd pwerus i athrawon a disgyblion fel ei gilydd, gall hefyd godi trafferthion hygyrchedd i rai efo anableddau. Disgrifia y cyhoeddiad 'The Internet – An Inclusive Magnet for Teaching All Pupils' rai o fanteision defnyddio'r We ond mae hefyd yn ystyried materion yn ymwneud â hygyrchedd Safweoedd ar gyfer defnyddwyr efo anableddau. Gellir ei lwytho i lawr yn rhad ac am ddim o www.wid.org/tech/handbook

Mae'n bosib teipio URL pob safle yr hoffech ymweld â hi ond mae hyn yn cymryd amser ac mae hi mor hawdd gwneud camgymeriadau. Y dull arferol o gyrchu gwahanol safleoedd ar y We yw dechrau efo un Safwe ac wedyn clicio ar yr hypergysylltiadau i lywio, gan wneud dewisiadau efo'r llygoden. Gall y ddau ddull greu trafferthion i'r rheiny sy'n methu defnyddio bysellfwrdd na llygoden yn hawdd iawn.

I rai disgyblion efo anawsterau corfforol, byddai defnyddio pêl-rolio yn lle llygoden yn ddigonol.

Mae cyrchiad trwy sgrîn gyffwrdd yn syml a hawdd ar gyfer pori yn defnyddio cysylltiadau. Dim ond cyffwrdd y cysylltiadau yr hoffech eu dilyn sydd raid.

Gallai cymryd mantais o opsiynau cyrchiad yn system reoli'r cyfrifiadur hefyd leihau rhai trafferthion. Gweler **Uned B – Rhoi Trefn ar eich Adnoddau** am fwy o wybodaeth.

Mae yna hefyd ddewisiadau eraill ar y bysellfwrdd yn lle rhai o symudiadau'r llygoden, fel defnyddio'r allweddau saethau i sgrolio i fyny ac i lawr tudalennau, neu'r allweddau Tab ac Enter i lywio a dethol o fewn blychau dewis.

I'r disgyblion hynny sy'n defnyddio switshis ar gyfer eu mewnbwn i'r cyfrifiadur, gellir defnyddio cymwysyddion meddalwedd megis *ClickIt!* i ychwanegu llecynnau poeth i'r darnau mwyaf pwysig o'r We-dudalen.

Gallwch weld enghreifftiau o ddefnydd dosbarth a disgyblion mewn Unedau eraill o fewn y rhaglen yma, ond rhoir ychydig o enghreifftiau yma er gwybodaeth.

Enghraifft 11a

Mae athro mewn ysgol ar gyfer disgyblion efo anableddau corfforol wedi gwneud cymwysiadau fel bod yr holl ddisgyblion yn medru cael cyrchiad i'r We. Mae gan y disgyblion amrywiaeth o anghenion sy'n gofyn am amrywiaeth o ffyrdd gwahanol o gyrchu.

Defnyddiau un disgybl bêl-rolio yn lle llygoden. Arafir cyflymder y llygoden trwy addasu y gosodiadau ar y Panel Rheoli, a gweithredir mecanwaith cloi y bêl-rolio er mwyn goresgyn y problemau dragio-a-chlicio. Gwneir y cyrchwr yn fwy i'w wneud yn haws ei leoli.

Mae disgybl arall ym methu defnyddio llygoden na phêl-rolio ond gall gyrchu bysellfwrdd efo gard. Defnyddia ddewisiadau'r bysellfwrdd ar gyfer gweithrediadau'r llygoden megis defnyddio'r allweddau ***saeth*** i sgrolio i fyny ac i lawr tudalennau, neu'r allweddau ***Tab*** ac ***Enter*** i lywio a dewis o fewn blychau dewis.

Mae trydydd disgybl â chryn anawsterau dysgu a defnyddia sgrîn gyffwrdd oherwydd ei fod yn ddull mwy uniongyrchol o gyrchu. Trosglwyddir symudiadau'r llygoden i weithred bys ar y sgrîn.

Mae disgybl arall nad yw'n defnyddio bysellfwrdd na llygoden. Mae hi yn defnyddio switshis a chyrchiad cyfyngedig iawn i'r Rhyngrwyd sydd ganddi. Weithiau mae'n gweithio gyda hwyluswr sy'n defnyddio'r llygoden i lywio drosti fel ei bod yn medru dewis efo switsh. I wella cyrchiad annibynnol i'w hoff Safweoedd, mae ei hathro yn defnyddio y gwasanaeth *ClickIt!* i wneud scaniadau llecynnau poeth ar gyfer ardaloedd llywio pwysig pob tudalen.

Mae defnyddiwr switsh arall heb ddysgu scanio ond paratodd ei athro lecynnau poeth *ClickIt!* ar gyfer ei hoff We-dudalen gan roi dau ar bob tudalen. Mae un o ddwy switsh yn cyfateb i bob llecyn poeth fel ei fod o yn medru dewis yr un mae o eisiau trwy gyrchiad uniongyrchol.

Sgiliau ac offer allweddol

Y sgiliau allweddol ar gyfer yr enghraifft uchod yw:

- bod yn ymwybodol o faterion hygyrchedd
- gwneud addasiadau meddalwedd i wella hygyrchedd
- gwneud addasiadau caledwedd i wella hygyrchedd

Yr offer allweddol yw:

- cyfrifiadur wedi ei gysylltu â'r Rhyngrwyd
- meddalwedd pori
- opsiynau hygyrchedd wedi eu hadeiladu i mewn i system reoli y cyfrifiadur
- sgrîn gyffwrdd, pêl rolio, gard bysell, switshis

Enghraifft 11b

Mae disgyblion â golwg gwan yn aml yn cael anawsterau wrth gyrchu'r We. Bydd gan system reoli'r cyfrifiadur a'r meddalwedd pori opsiynau ar gyfer newid maint ffontiau a lliwiau er mwyn gwella gweledegd. Mae chwyddhâd sgrîn yn bosibilrwydd arall ond os nad oes gan y darllenydd gysyniad o'r sgrîn gyfan gall fod yn ddryslyd. Gall darllenydd-sgrîn drosi testun i leferydd wedi ei syntheseiddio ond nid os oes gormod o graffeg. Rhaid glynnu disgrifiadau testun gwahanol i bob delwedd wrth ysgrifennu Gwe-dudalennau fel bod darllenydd y sgrîn yn medru eu darllen yn uchel. Os nad oes angen y delweddau o gwbl gellir gosod y porwr fel mai dim ond eu disgrifiadau sy'n cael eu llwytho i lawr, gan gyflymu trosglwyddo'r wybodaeth. Mae Safweoedd sydd wedi eu hysgrifennu gyda'r wybodaeth wedi ei harddangos mewn fframiau hefyd yn achosi problemau os nad yw darllenydd y sgrîn yn gwybod pa ffrâm i'w darllen yn uchel.

Mae athro sydd â disgyblion efo golwg gwan wedi gwneud addasiadau fel bod y disgyblion i gyd yn medru cael cyrchiad i'r We.

Safwe wedi ei gosod efo cyferbyniad uchel

Safwe yn arddangos ffontiau mawr

I un disgybl mae meddalwedd pori wedi cael ei gosod efo maint ffont mawr a lliwiau cyferbyniad uchel er mwyn gwella gweledegd.

Defnyddia disgybl arall chwyddhâd sgrîn i wneud rhannau o'r sgrîn yn fwy gweladwy.

Mae trydydd disgybl angen darllenydd sgrîn i ddarllen y testun ar y sgrîn. Gosodir y porwr i roi'r disgrifiadau testun Amgen ar gyfer graffeg. Pan fo'r opsiwn ar gael, mae'n defnyddio fersiwn di-ffrâm Safwe.

Mae disgybl arall hefyd yn defnyddio darllenydd sgrîn ond ni all weld delweddau o gwbl; felly mae'r porwr yn cael ei osod i atal delweddau gael eu llwytho i lawr. Mae hyn yn cyflymu llwytho y tudalennau i lawr. Os yw Safwe yn cynnig fersiwn testun yn unig mae'n ei ddewis.

Sgiliau ac offer allweddol

Y sgiliau allweddol ar gyfer yr enghraifft uchod yw:

- bod yn ymwybodol o faterion hygyrchedd
- gwneud addasiadau meddalwedd i wella hygyrchedd
- dethol Safweoedd sydd yn hygyrch

Yr offer allweddol yw:

- cyfrifiadur wedi ei gysylltu â'r Rhyngrwyd
- meddalweddd pori
- Opsiynau Hygyrchedd wedi eu hadeiladu i mewn i system reoli y cyfrifiadur

Fydd defnydd cynyddol ffeiliau sain mewn Safweoedd ddim yn hygyrch i nifer o ddisgyblion efo nam ar y clyw, felly mae'n bwysig fod penawdau testun yn cael eu hychwanegu i ddisgrifio beth sy'n cael ei chwarae.

Gallai llawer o'r problemau a wynebir gan ddefnyddwyr y We sydd ag anableddau gael eu lliniaru petai cynllunwyr Gwe-dudalennau yn ystyried pob defnyddiwr posib! Mae tudalennau clir, trefnus, heb fod yn orlawn o fantais i bawb a bydd cynnig fersiynau safle testun yn unig, a di-ffrâm, yn cynorthwyo'r bobl hynny sy'n defnydio darllenyddion sgrîn.

Gweler arweiniad pellach am We-gynllunio hygyrch yn:

Trace Research and Development Centre: www.trace.wisc.edu/world/web/

Microsoft Accessibility Pages: www.microsoft.com/enable/dev/web/guidelines.htm

The World Wide Web Consortium: www.w3.org

Gall Gwe-gynllunwyr sydd eisiau gwybod pa mor hygyrch yw eu safle eu hunain ei ddangos i Bobby, offeryn wedi ei seilio ar y We sydd i'w ddarganfod yn: www.cast.org/bobby

Mae Bobby yn wasanaeth cyhoeddus rhad ac am ddim sy'n cael ei gynnig gan y Centre for Applied Technology (CAST) yn yr UDA. Bydd yn archwilio eich Safwe ac yn anfon adroddiad i chi yn dangos unrhyw broblemau hygyrchedd sydd i'w canfod ynddi. Os ystyrir y safle yn hygyrch, bydd CAST yn dyfarnu tystysgrif 'Wedi ei chymeradwyo gan Bobby' i chi y gallwch ei harddangos ar eich safle.

Canfod a defnyddio adnoddau - safweoedd defnyddiol

Er fod y We yn adnodd mor gyfoethog o wybodaeth i wella addysgu athrawon, mae cymaint ohono ac angen cymaint o amser i ganfod beth mae nhw eisiau, fel bod llawer o athrawon yn gwangalonni. Gall casglu URLs defnyddiol, pori neu ddefnyddio peiriannau chwilio leoli llawer o adnoddau, ar gyfer defnydd y cwricwlwm a datblygiad proffesiynol; a bydd ychwanegu URLs i'ch Ffefrynnau neu rhestr Nodau Tudalen yn sicrhau eich bod yn medru eu canfod yn hawdd. Ond mae yna hefyd gasgliadau o dudalennau sydd wedi eu datblygu gyda'r nod o ganfod adnoddau defnyddiadwy yn haws. Gallai fod casgliad o'r fath gan eich AALL.

Mae safle Cynhwysiad y DfEE inclusion.ngfl.gov.uk yn gronfa ddata am ddim a ddatblygwyd gan Becta. Nôd y safle yw i roi gwybodaeth am adnoddau sy'n cefnogi cynllunio'r cwricwlwm fel bod pob dysgwr yn cyfranogi'n llawn yn y broses addysgol. Ei amcanion yw i ddarparu gwybodaeth ar gynhwysiad; deunyddiau atodol, strategaethau cyrchu ac enghreifftiau o arfer da; ystod o wybodaeth gyswllt ar gyfer cynhyrchion a gwasanaethau a chyrchiad i ddeunyddiau hunan-addysgol a rhwydweithiau proffesiynol. Bydd y Safwe yn galluogi ymwelwyr i chwilio am ddarnau penodol o wybodaeth. Bydd darparwyr yn medru cynnig adnoddau i'w cyfeirio o'r safle. Y bwriad yw i'r safle fod yn adwy efo ychydig iawn o gynnwys ei hunan, ond bydd yn gallu cyfeirio, disgrifio a darparu cysylltiadau ar gyfer adnoddau allanol sydd ar gael, gan gynnwys rheini ar amrywiol safleoedd y DfEE ac asiantaethau addysgol.

Mae hefyd gasgliadau a ddatblygwyd gan fentrau masnachol. Mae'r rhain weithiau ar gael yn rhad ac am ddim, fel SchoolNet 2000 cadwyn archfarchnad Tesco www.tesco.schoolnet2000.com (am ddim i holl ysgolion y DU) a LearnFree learnfree.co.uk ddarperir gan y Times Educational Supplement ac a anelir at rieni. Mae eraill ar gael trwy dalu tanysgrifiad, er fod rhai fel EduWeb RM www.eduweb.co.uk yn darparu gwybodaeth lefel-mynediad am ddim ond yn codi ffi am wasanaeth llawn.

Bydd y casgliad isod o Safweoedd yn rhoi syniad i chi o'r math o wybodaeth y gallech ei gael yn ddefnyddiol.

Rhai Safweoedd ar gyfer datblygiad proffesiynol cyffredinol mewn AAA

- ***Becta*** (The British Educational Communications and Technology agency) – gwybodaeth am ffyrdd o ddefnyddio TGCh mewn addysg. www.becta.org.uk
- ***Becta*** - Ardal Anghenion Arbennig a Chynhwysiad – llawer o wybodaeth am ddefnyddio TGCh i gefnogi dysgwyr ag anghenion arbennig, gan gynnwys cysylltiadau i archifau rhestrau postio defnyddiol. www.becta.org.uk/inclusion/
- ***Cyhoeddwyr David Fulton*** – arbenigo mewn llyfrau am addysgu mewn addysg arbennig . www.fultonbooks.co.uk
- ***DfEE Anghenion Arbennig*** – gwybodaeth am ddeddfwriaeth, cyrff a phrosiectau. www.dfee.gov.uk/sen/senhome.htm
- ***Education Unlimited*** – eitemau newyddion ac erthyglau ar bynciau addysgol a ddatblygwyd gan bapurau newydd y Guardian / Observer. www.educationunlimited.co.uk
- ***Inclusion*** – catalog am ddim, hawdd chwilio ynddo, o adnoddau ar-lein i gefnogi addysgwyr proffesiynol, rhieni a gofalwyr wrth ateb anghenion dysgu unigolion. inclusion.ngfl.gov.uk
- ***Inclusive Technology*** – mae Safwe y cwmni hwn â thudalennau gwybodaeth defnyddiol ar bynciau o ddiddordeb i athrawon disgyblion ag anghenion addysgol arbennig. www.inclusive.co.uk

- ***Mailbase*** – cyfeiriadur o restrau trafodaeth yn bennaf ar gyfer cymuned addysg uwch y DU. www.mailbase.ac.uk
- ***National Association for Special Educational Needs*** – mae Safwe y NASEN yn rhoi gwybodaeth am ei weithgareddau. www.nasen.org.uk
- ***National Grid for Learning*** – casgliad o adnoddau gan Lywodraeth y DU. Mae i'r ardal Ysgolion adran ar Anghenion Arbennig. www.ngfl.gov.uk
- ***Qualifications and Curriculum Authority*** – golwg gyffredinol o'r cwricwlwm, asesiad a chymwysterau. www.qca.org.uk
- ***Questions Publishing Online*** – mae i'r Safwe hon wasanaeth chwilio sy'n eich galluogi i ganfod erthyglau sydd wedi eu cyhoeddi yng ngrŵp cyfnodolion Question, yn ogystal â disgrifiadau o lyfrau perthnasol. www.education-quest.com
- ***Teacher Training Agency*** – mae'r adran anghenion arbennig yn rhoi gwybodaeth am bolisïau diweddaraf y llywodraeth ynglŷn â hyfforddi athrawon mewn AAA. www.teach-tta.gov.uk/sen/
- ***Times Educational Supplement*** – fersiwn ar-lein o'r papur newydd addysgol. www.tes.co.uk
- ***Widgit Software*** – mae adran anghenion arbennig Safwe y cwmni hwn yn cynnwys llawer o wybodaeth ddefnyddiol. www.widgit.co.uk
- ***Xplanatory*** – tudalennau o adnoddau, gwybodaeth a syniadau a ddatblygwyd ac a gynhaliwyd gan y Ganolfan Ymchwil a Datblygiad Anghenion Arbennig yng Ngholeg Addysg Uwch Christ Church, Canterbury .www.canterbury.ac.uk/xplanatory/xplan.htm

Rhai Safweoedd yn ymdrin â materion cynhwysiad

- ***Alliance for Inclusive Education*** – Safwe sy'n disgrifio ymgyrch y corff hwn dros gynhwysiad. www.btinternet.com/~allfie
- ***Centre for Studies on Inclusive Education*** (CSIE) Tudalen cynhwysiad - cyngor a gwybodaeth am waith yr CSIE yn hybu addysg gynhwysol . inclusion.uwe.ac.uk
- ***Enabling Education Network*** (EENET) – rhwydwaith yn rhannu gwybodaeth sy'n anelu at gefnogi ac annog cynhwysiad. www.eenet.org.uk
- ***ISEC 2000*** – Safwe sy'n rhoi gwybodaeth am y Gyngres Addysg Arbennig ym Manceinion, Gorffennaf 2000. www.isec2000.org.uk
- ***UNESCO Salamanca Statement*** – testun o'r fframwaith addysg gynhwysol a fabwysiadwyd yng nghynhadledd Salamanca 1994. www.unesco.org/education/educprog/sne/

Rhai Safweoedd sydd â gwybodaeth am anableddau corff a synnwyr

- ***Canolfannau Asesu*** – mae'r canolfannau hyn â'u Safweoedd eu hunain:

  AbilityNet – www.abilitynet.co.uk

  ACE Centre Advisory Trust – www.ace-centre.org.uk

  ACE Centre-North – www.ace-north.org.uk/

  CALL Centre – callcentre.education.ed.ac.uk

  CENMAC – www.cenmac.demon.co.uk

  Computability Centre – www.bcs.org.uk/computab/

- ***British Association of Teachers of the Deaf*** (BATOD) – Safwe ar gyfer athrawon disgyblion â nam ar eu clyw . www.batod.org.uk
- ***Deaf@x Trust*** – yn cynnwys gwybodaeth am ddefnyddio technoleg gyda disgyblion â nam ar eu clyw. www.webcom.com/deafax
- ***Dyspraxia Foundation*** – Gwe-dudalen gyda gwybodaeth am dyspraxia a'r gefnogaeth sydd ar gael. www.emmbrook.demon.co.uk/dysprax/homepage.htm
- ***Forest Bookshop*** – Safwe cyhoeddwyr arbenigol ym maes byddardod a materion nam ar y clyw. www.forestbooks.com/system/shopassistant.htm
- ***National Deaf Children's Society*** (NDCS) – gwybodaeth am fyddardod mewn plentyndod. www.ndcs.org.uk
- ***Sefydliad Genedlaethol Frenhinol y Dall*** (RNIB) – Safwe fawr gyda digonedd o wybodaeth am nam ar y golwg a ffyrdd o gefnogi dysgwyr efo golwg gwan. www.rnib.org.uk
- ***Scope*** – gwybodaeth am wasanaethau i bobl efo parlys yr ymennydd. www.scope.org.uk
- ***SENSE*** – Safwe sy'n hybu ymwybyddiaeth o'r dall-a-byddar ac yn cynnig gwasanaethau cefnogi. www.sense.org.uk

Rhai Safweoedd sydd â gwybodaeth am anableddau dysgu cyffredinol a phenodol

- ***Y Gymdeithas Ddyslecsia Brydeinig*** (BDA) – gwybodaeth am adnoddau, cefnogaeth leol a chyhoeddiadau. www.bda-dyslexia.org.uk
- ***Sefydliad Prydeinig Anableddau Dysgu*** (BILD) – gwybodaeth ac adnoddau i godi ymwybyddiaeth o Anableddau Dysgu. i www.bild.org.uk
- ***Down Syndrome Educational Trust*** – mae'r Safwe yn cynnig cyngor a gwybodaeth i rieni a phobl broffesiynol sy'n gofalu am unigolion efo Syndrom Downs. www.down-syndrome.net
- ***Dyslexic.com*** – Safwe o'r Cwmni Iansyst sy'n rhoi gwybodaeth arbennig o ddefnyddiol am ddyslecsia. www.dyslexic.com
- ***LD OnLine*** – llawlyfr rhyngweithiol Americanaidd am anableddau dysgu i rieni, athrawon a disgyblion. www.ldonline.org
- ***National Autistic Society*** – gwybodaeth am anhwylderau'r sbectrwm awtistaidd a'r gwasanaethau a ddarperir gan y NAS. www.oneworld.org/autism_uk

Rhai Safweoedd gyda gwybodaeth am gyflyrrau meddygol

- ***Y Gymdeithas Epilepsi Brydeinig*** – gwybodaeth am y gwasanaethau a ddarperir gan y gymdeithas, a Beach Park, ardal ar gyfer disgyblion. www.epilepsy.org.uk
- ***Contact a Family*** – cefnogaeth a chyngor i rieni a chyfeiriadur yn rhoi gwybodaeth am dros 1,000 o syndromau ac anhwylderau prin. www.cafamily.org.uk
- ***Sickle Cell Society*** – yn ogystal â gwybodaeth am Glefyd Cryman-gell, mae'r safle hon yn cynnwys tudalennau Planet Sickle ar gyfer disgyblion sydd â'r cyflwr. www.sicklecellsociety.org

Rhai Safweoedd sydd â gwybodaeth am anawsterau lleferydd ac iaith

- ***Afasic*** – yn hybu dealltwriaeth, derbyniad, cyfleoedd cyfartal a chynhwysiad disgyblion ac oedolion ifanc sydd â nam lleferydd neu iaith o fewn cymdeithas. www.afasic.org.uk
- ***Communication Matters*** – gwybodaeth a chysylltiadau ynglŷn ag anghenion Cyfathrebu Cynyddol ac Amgen (AAC) pobl efo anawsterau cyfathrebu difrifol. www.communicationmatters.org.uk
- ***Pippy*** – mae llawer o syniadau ar gyfer gweithio gyda disgyblion ar y safle Americanaidd hon. www.aacintervention.com

Rhai Safweoedd gyda gwybodaeth am dechnoleg gynorthwyol

- Gwe-dudalen ***Apple Computers Education Disability Resources***. www.apple.com/education/k12/disability
- *Safle* ***BBC Education Betsie*** – ar gyfer fersiynau testun yn unig o We-dudalennau'r BBC. www.bbc.co.uk/education/betsie
- ***Center for Applied Special Technology*** – yn cynnwys manylion o'r offeryn Bobby Web ar gyfer gwirio hygyrchedd. www.cast.org
- ***Closing the Gap*** – fersiwn ar-lein y cyfnodolyn o'r UDA sy'n hybu y defnydd o dechnoleg gyfrifiadurol mewn addysg arbennig. www.closingthegap.com
- ***Microsoft Accessibility*** – gwybodaeth am offer hygyrchedd ar gyfer eu cynhyrchion. www.microsoft.com/enable/
- ***Trace Center*** – yn cynnwys manylion am Egwyddorion a Chanllawiau Dylunio Cyffredinol. www.trace.wisc.edu/world/gen_ud.html
- ***World Wide Web Consortium*** (W3C) – Canllawiau ar gyfer Awduro Hygyrch ar y We. www.w3.org

Rhai Safweoedd efo adnoddau cwricwlaidd

- ***Advisory Unit: Computers in Education*** – mae gan Safwe y cwmni hwn Gyfnewidfa Cyffyrddell efo adnoddau am ddim i'w llwytho i lawr a'u defnyddio efo'u rhaglen Concept Plus . www.advisory-unit.org.uk
- ***BBC Addysg Ar-lein*** – man cychwyn ar gyfer adnoddau a chysylltiadau i Safweoedd eraill. www.bbc.co.uk/education/
- ***Channel 4 Learning*** – cefnogaeth ar-lein ar gyfer rhaglenni teledu Ysgolion Sianel 4. www.4learning.co.uk
- ***Creative Communicating*** – syniadau ac adnoddau ar gyfer disgyblion efo anableddau. www.creative-comm.com
- ***Crick Software*** – mae safle'r cwmni hwn yn cynnwys adnoddau am ddim i'w llwytho i lawr ar eu tudalen Clicker Grids for Learning i ddefnyddwyr y rhaglen *Clicker.* www.cricksoft.com
- ***EduWeb*** – safle cefnogaeth i'r Cwricwlwm o RM, sydd â rhannau ohoni yn rhad ac am ddim i'w cyrchu. www.eduweb.co.uk
- ***IntelliTools*** – mae gan safle y cwmni hwn Gyfnewidfa Gweithgaredd am ddim lle gall adnoddau a grewyd gyda'u cynhyrchion nhw gael eu llwytho i lawr am ddim. www.intellitools.com

- ***Quest*** – yn caniatâu i ddisgyblion archwilio eitemau o'r Amgueddfa Natur trwy glicio ar luniau neu symbolau. www.nhm.ac.uk/education/quest2/english/

- ***Simon's Raising Achievement Web site*** – Safwe wedi ei datblygu a'i chynnal gan athro Cynhaliol i rannu adnoddau y mae o wedi eu canfod yn ddefnyddiol. www.smidgley.co.uk

Rhai Safweodd ysgol

- ***Foxdenton School and Integrated Nursery*** – Safwe clir ei chyflwyniad sy'n rhoi gwybodaeth am yr ysgol. www.foxdenton.oldham.sch.uk

- ***Frank Wise School*** – Safwe arall glir sy'n cynnig gwybodaeth am yr ysgol. easyweb.easynet.co.uk/~frankwise/

- ***Meldreth Manor School*** – mae'r safle yma, sydd wedi ennill gwobrau, yn caniatâu i'r ymwelydd ddewis rhwng fersiynau amlgyfrwng, testun yn unig a hygyrch trwy switsh. www.meldrethmanor.com

- ***Internet and Special Schools*** – rhestr yn ôl yr wyddor o Safweoedd wedi eu creu gan ysgolion arbennig ac Unedau Cyfeirio Disgyblion. www.sed.kcl.ac.uk/special/

Gweithgareddau addysgu ymarferol

Dewiswch a chwblhewch un neu fwy o'r gweithgareddau canlynol os gwelwch yn dda:

1. Patrymluniau a llwybrau byr.

   Edrychwch ar y llythyrau mae'n rhaid i chi eu hysgrifennu i bobl broffesiynol eraill a rhieni. Ar gyfer unrhyw rai sy'n cael eu dyblygu o dro i dro gwnewch batrymlun a ellir ei ddefnyddio pan fo angen. Treuliwch rywfaint o amser yn ymgyfarwyddo efo nodweddion prosesydd geiriau a allai wneud eich defnydd ohono yn fwy effeithiol. Gwnewch restr anodedig o lwybrau byr y bysellfwrdd, y llygoden ac opsiynau'r ddewislen y teimlwch y byddai'n fwyaf defnyddiol i chi. Os yw cydweithiwr arall yn gwneud yr un dasg, rhannwch eich darganfyddiadau a gwnewch restr ar y cyd. Oes yna unrhyw nodweddion rydych chi wedi eu canfod a fyddai'n ddefnyddiol i rai o'ch disgyblion, tybed?

2. Creu pro forma

   Dyluniwch eich pro forma eich hunan ar gyfer CAU, cofnod disgybl, neu unrhyw ffurflen arall allech fod ei hangen. Meddyliwch am beth rydych eisiau ei gynnwys a sut hoffech iddo gael ei gyflwyno. Cymharwch y ffyrdd gwahanol y gallwch greu blychau yn y ddogfen - tablau, blychau testun, borderi - a phenderfynnwch pa ddull sy'n gweithio orau i chi. Efallai yr hoffech edrych ar y ffordd y mae'r CAU ar Safwe'r DfEE wedi cael eu creu: www.dfee.gov.uk/sen/sencoinf.htm

3. Pa fformat CAU?

   Astudwich y fformat CAU rydych yn ei ddefnyddio yn yr ysgol. Beth yw ei gryfderau a'i wendidau? Ym mha ffordd, os o gwbl, y mae angen ei newid? Cymharwch ef efo pecyn un-pwrpas ar gyfer ysgrifennu CAU. Pa ddull o ysgrifennu CAU fyddai'n gweddu orau i'ch ysgol? Pam?

4. Chwilio am wybodaeth.

   Dewiswch ddisgybl yn eich dosbarth - dysgwr amharod efallai neu rywun nad oes ganddo ddiddordeb yn y We. Meddyliwch am ddiddordebau'r plentyn a defnyddiwch y gwasanaeth chwilio i ganfod tair safle fyddai'n symbylu'r disgybl.

5. Chwilio am adnoddau

   Meddyliwch am ddisgybl yn eich dosbarth sydd ag anabledd corff, synnwyr neu addysgol a'r ardaloedd o'r cwricwlwm sy'n achosi rhwystrau posib i'w gyrhaeddiad. Logiwch ymlaen i safle Cynhwysiad y DfEE inclusion.ngfl.gov.uk a defnyddiwch ei wasanaeth chwilio i ganfod adnodd fyddai'n briodol.

6. Peiriannau Chwilio

   Cliciwch ar fotwm Chwilio eich porwr a cheisiwch chwilio am 'tornado' i gael gwybodaeth am y ffenomenon feteorolegol , neu 'Brunel' am wybodaeth am y peiriannydd Isambard Kingdom Brunel. Efallai y bydd rhaid i chi fireinio eich chwiliad trwy ychwanegu 'tywydd' i tornado neu 'Isambard' i Brunel (a mwy na thebyg 'Kingdom' hefyd, neu mi gewch wybodaeth am ei dad). Ceisiwch wneud yr un chwiliad yn defnyddio gwahanol beiriannau chwilio e.e. www.altavista.co.uk , www.ask.co.uk , www.excite.co.uk , www.google.com , www.go.com neu uk.yahoo.com

7. Rhestrau postio

   Logiwch ymlaen i'r rhestr o fforymau Cynhwysiad a gefnogir gan Becta www.becta.org.uk/inclusion/discussion/ Dowch o hyd i'r hypergyswllt i'r Fforwm SLD — rhestr bostio i athrawon sy'n gweithio efo disgyblion sydd ag anawsterau dysgu difrifol. Cliciwch ar y cyswllt i symud i dudalen y fforwm a darllenwch y wybodaeth. Yna cliciwch ar yr hypergyswllt i'r archifau o negeseuon sydd wedi eu hanfon i'r fforwm yn barod a darllenwch rai ohonynt. Os ydych chi'n meddwl y gallai'r rhestr fod o gymorth i'ch ymarfer proffesiynol, dychwelwch i'r dudalen Fforwm SLD a dilynwch y cyfarwyddiadau i ymuno. Os na, dychwelwch i'r rhestr o fforymau Becta a dewiswch un arall i ymuno ag o.

8. Cyrchiad i'r Rhyngrwyd

   Meddyliwch am anghenion cyrchu y disgyblion yn eich dosbarth. Pa wasanaethau meddalwedd a chaledwedd fyddai o gymorth iddyn nhw i gael cyrchiad gwell i'r Rhyngrwyd? Ysgrifennwch broffil o bob disgybl gyda'r addasiadau rydych yn eu cynnig.

9. Symbolau ac e-bost

   Meddyliwch am ddisgybl yn eich dosbarth a allai fod angen cefnogaeth wrth ddarllen ei e-bost. Dewiswch naill ai brosesydd geiriau llafar neu brosesydd symbol; pa un bynnag sydd mwyaf addas i'r disgybl. Anfonwch neges brawf i chi eich hunan ac wedyn copïwch hwnnw i fewn i'r prosesydd geiriau llafar neu prosesydd symbol i weld sut y byddai'n cynorthwyo eich disgyblion.

10. Cefnogaeth testun i'r e-bost

    Meddyliwch am ddisgybl yn eich dosbarth a allai fod angen cefnogaeth wrth gyfansoddi e-bost. Meddyliwch am y geiriau a'r cymalau a allai gynorthwyo'r disgybl i gyfansoddi ei neges a pharatowch naill ai grid ar y sgrîn neu droshaen ar gyfer y bysellfwrdd troshaen gyda'r geiriau hynny.

Atodiad 1 – Adnoddau allweddol

Meddalwedd ysgrifennu CAU

IEP Writer	www.learnhowpublications.co.uk
IEP Developer	www.Special-IT-Solutions.co.uk

Cyfrifiadur wedi ei gysylltu â'r Rhyngrwyd

Meddalwedd e-bostio

Outlook	Microsoft
Outlook Express	Microsoft
Eudora	Qualcomm
Netscape Messenger	Netscape

Meddalwedd pori

Internet Explorer	Microsoft	
Netscape Navigator	Netscape	home.netscape.com/uk/download/
Opera	Opera Software	www.opera.com

Camera digidol

Kodak, Olympus, amrywiol

Meddalwedd cywasgiad

WinZip	Winzip Computing Inc.	www.winzip.com
StuffIt	Aladdin Systems	www.stuffit.com

Bysellfyrddau troshaen

Bysellfwrdd troshaen IntelliKeys	Inclusive Technology, Keytools, Semerc
Bysellfwrdd Concept Universal	Semerc

Golygyddion Troshaen

Overlay Maker (IntelliKeys)	Inclusive Technology
Concept Plus (Bysellfwrdd Concept)	Advisory Unit
Informax (Bysellfwrdd Concept)	Semerc

Prosesyddion Geiriau llafar

IntelliTalk	Inclusive Technology
Inclusive Writer	Inclusive Technology, Widgit Software
Writing with Symbols 2000	Widgit Software, Inclusive Technology
Talking TextEase	Softease
First Word	Research Machines

Adnoddau Testun i Leferydd

textHELP!	textHELP Systems Ltd, Inclusive Technology
JAWS	Sight & Sound, PVS, RNIB (Gweler Atodiad 1 yn **Unedau 9** a **10** am fanylion cyflenwyr)

Meddalwedd banciau geiriau Ar-sgrîn

Clicker	Crick Software, Inclusive Technology
Inclusive Writer	Inclusive Technology, Widgit Software
Writing with Symbols 2000	Widgit Software, Inclusive Technology

Prosesyddion Symbol / llun

Writing with Symbols 2000	Widgit Software, Inclusive Technology
Inclusive Writer	Inclusive Technology, Widgit Software

Pêl-rolio	
Peli-rolio Penny & Giles	Inclusive Technology, Semerc
Pêl-rolio MicroSpeed	Inclusive Technology
Keyguard	Inclusive Technology, Special Access Systems
Sgriniau cyffwrdd	
Monitor Cyffwrdd	Inclusive Technology
TouchIT	Semerc
Switshis	Inclusive Technology, Liberator, Semerc, QED 2000
Rhyngwyneb switsh	
Blwch switsh cyfres	Inclusive Technology, Semerc, Widgit Software, Crick Software
Rhyngwyneb swits Don Johnson	Don Johnston Special Needs, Inclusive Technology
BlwchSwitsh	Inclusive Technology
BwrddSwitsh	Inclusive Technology
Mouser	Semerc
Meddalwedd llecyn poeth	
ClickIt!	Inclusive Technology
Hot Spots	Ace Centre Advisory Trust

Atodiad 2 – Cyflenwyr

ACE Centre Advisory Trust
92 Windmill Road
Headington
Rhydychen OX3 7DR
Ffôn: 01865 759800
Y We: www.ace-centre.org.uk

Advisory Unit
Computers in Education
126 Great North Road
Hertfordshire AL9 5JZ
Ffôn: 01707 266714
Y We: www.advisory-unit.org.uk

Crick Software
35 Chartergate
Quarry Park Close
Moulton Park
Northampton NN3 6QB
Ffôn: 01604 671691
Y We: www.cricksoft.com
www.clickergrids.com

Don Johnston Special Needs
18 Clarendon Court
Calver Road
Winwick Quay
Warrington WA2 8QP
Ffôn: 01925 241642
Y We: www.donjohnston.com

Inclusive Technology Ltd
Gatehead Business Park
Delph New Road, Delph
Oldham OL3 5BX
Ffôn: 01457 819790
Y We: www.inclusive.co.uk

KeyTools
PO Box 700
Southampton SO17 1LQ
Ffôn: 01703 584314
Y We: www.keytools.com

Liberator Ltd
Whitegates
Swinstead
Lincolnshire NG33 4PA
Ffôn: 01476 550391
Y We: www.liberator.co.uk

RM (Research Machines)
New Mill House
183 Milton Park
Abingdon
Oxon OX14 4SE
Ffôn: 01235 826000
Y We: www.rm.com

Semerc
Granada Learning Ltd
Granada Television, Quay St
Manceinion M60 9EA
Ffôn: 0161 827 2966
Y We: www.semerc.com

Softease Ltd
Market Place, Ashbourne
Derbyshire DE6 1ES
Ffôn: 01335 343421
Y We: www.softease.co.uk

Special Access Systems
4 Benson Place
Rhydychen, OX2 6QH
Ffôn: 01608 811909

Texthelp Systems Ltd
Enkalon Business Centre
25 Randalstown Road
Antrim
Co Antrim BT41 4LJ
Ffôn: 02894 428105
Y We: www.texthelp.com

Widgit Software
26, Queen Street, Cubbington
Leamington Spa CV32 7NA
Ffôn: 01926 885303
Y We: www.widgit.com

Atodiad 3 – Iaith y Rhyngrwyd

Mae cyfathrebu electronig, p'un ai yw'n e-bost neu'n We-dudalennau, yn tueddu i ddefnyddio iaith newydd! A honno'n cynnwys llawer o acronymau a jargon. Gan ei bod yn ffurf gymharol ifanc o gyfathrebu, mae'n siwr bod angen disgrifio peth o'r derminoleg (petai dim ond i hybu cyfathrebu rhwng defnyddwyr).

Dyma eirfa fer i'ch helpu:

Cyfeiriad	Y cyfuniad unigryw o nodau sy'n penderfynu derbynydd neges e-bost neu leoliad cyfrifiadur ar y Rhyngrwyd (e.e. Safwe).
Llyfr Cyfeiriadau	Swyddogaeth o feddalwedd e-bost, i ddal cyfeiriadau e-bost ddefnyddir yn aml.
Atodiad	Ffeil sydd ynghlwm wrth neges e-bost. Defnyddir atodiadau pan fo gwybodaeth ychwanegol at destun plaen i gael ei yrru.
Nodau tudalen neu Ffefrynnau	Swyddogaeth o feddalwedd porwr y We, i ddal cyfeiriadau Safweoedd (URLs) a gyrchir yn aml. Gellir grwpio URLs mewn ffolderi os am fod yn fwy trefnus.
Hysbysfwrdd	Lle ar y Rhyngrwyd i roi negeseuon i eraill eu gweld a gwneud sylwadau arnynt.
Stafelloedd Sgwrs	Ardaloedd di-oruchwyliaeth ar y Rhyngrwyd lle gall rhywun ymuno mewn sgyrsiau ar-lein. Rhaid rhybuddio disgyblion o beryglon hyn a cynnig ffyrdd iddynt eu defnyddio yn ddiogel.
Llwytho i lawr / i fyny	Y broses o gasglu ffeiliau *oddiwrth* / anfon ffeliau i weinydd ar y Rhyngrwyd. Rhaid llwytho tudalennau ar gyfer eich safwe i fyny i weinydd y We, er mwyn i ddefnyddwyr eraill y We eu gweld.
E-bost	Talfyriad am bost electronig -negeseuon a gyfathrebir trwy'r Rhyngrwyd.
Fforwm neu restr bostio	Gofod ar y Rhyngrwyd lle gall pobl gyfarfod i drafod pynciau o ddiddordeb iddynt. Mae negeseuon a anfonir i fforymau e-bost yn cael eu hanfon yn awtomatig i'r holl aelodau.
FTP	Mae 'File transfer protocol' yn cael ei ddefnyddio i *lwytho ffeiliau i lawr neu i fyny* rhwng eich cyfrifiadur a gweinydd ar y Rhyngrwyd. Defnyddir ef yn gyffredin i drosglwyddo ffeiliau mawr (e.e. llwytho meddalwedd i lawr) ac i lwytho eich Gwe-dudalennau i fyny.
html	'Hypertext markup language' – y codau a ddefnyddir mewn Gwe-dudalen i nodi sut mae wedi ei osod allan, pa graffeg a gynhwysir, a sut mae'n cysylltu efo Gwe-dudalennau eraill.
Hypergyswllt	Ffordd o lywio o amgylch y We -mae clicio ar hypergyswllt yn agor Gwe-dudalen wahanol, weithiau o Safwe wahanol.
Rhyngrwyd	Rhwydwaith electronig sy'n cysylltu cyfrifiaduron o dros y byd i gyd.
ISP	Talfyriad am 'Internet Service Provider '– y corff sy'n cyflenwi'r cysylltiad o'ch cyfrifiadur chi i'r Rhyngrwyd.
Netiquette	Cod ymddygiad cyffredinol ar gyfer defnyddio rhannau o'r Rhyngrwyd e.e. rhestrau postio.
Grwp newyddion	Math arall o fforwm drafod ar y Rhyngrwyd. Gellir derbyn negeseuon a anfonir i grŵp newyddion gan unrhywun sy'n tanysgrifio i'r grwp ar eu *gweinydd newyddion*.
Ar / All-lein	Pan ar-lein mae eich cyfrifiadur wedi ei gysylltu a'r Rhyngrwyd, tra all-lein dydy o ddim.
Peiriant chwilio	Safwe sy'n eich galluogi i ganfod tudalennau perthnasol ar y We trwy deipio geiriau allweddol.
Gweinydd	e.e. gweinydd y We , gweinydd FTP , gweinydd newyddion, gweinydd e-bost, etc. Cyfrifiadur sydd wedi ei gysylltu â'r Rhyngrwyd yn barhaol, gan gyflenwi gwasanaethau i ddefnyddwyr y Rhyngrwyd.
URL	Cyfeiriad unigryw ar gyfer unrhwy ffeil ar weinydd ar y Rhyngrwyd. Mae URLs sy'n dechrau efo '***http://***' yn nodi gweinydd y We, a'r dudalen rydych chi eisiau ei gweld.
Y We fyd-eang	WWW neu ***'y We***' yn fyr – Casgliad byd-eang o gyfrifiaduron *gweinydd* yn dal dogfennau hypergysylltiol, wedi eu cysylltu trwy'r Rhyngrwyd.
Cynadledda ar y We	Safwe sy'n eich galluogi i gymryd rhan mewn trafodaeth ar-lein ar bynciau arbennig.
Gwe-dudalen	Dogfen unigol ar *Safwe* (casgliad o dudalennau ar *weinydd y We*)
Cylch y We	Grwp o safweoedd gyda themâu tebyg, wedi eu cysylltu â'i gilydd.